Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Codau a chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Fersiwn 3: Ebrill 2025

# Rhan 9

## Canllawiau Statudol ar Drefniadau Partneriaeth mewn perthynas â rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyhoeddir o dan Adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ail fersiwn hon o'r Canllawiau Statudol ar Drefniadau Partneriaeth mewn perthynas â rhan 9 yn disodli fersiwn 3.

## Cynnwys

Rhestr 3

1. Cyflwyniad – Dyletswydd i gydweithredu 5
2. Y Cefndir Deddfwriaethol 7
3. Y Cyd-destun Polisi 9
4. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol 16
5. Llywodraethiant a Chraffu 32
6. Cwmpas a swyddogaethau partneriaethau rhanbarthol 42
7. Atebolrwydd ac adrodd 48
8. Rhannu gwybodaeth 51
9. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd 52
10. Atodiad: Siarter i gefnogi aelodau o fyrddau partneriaeth rhanbarthol 55

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51336, ISBN digidol 978-1-83715-719-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhestr o dermau a byrfoddau

| | |
|---|---|
| Byrddau iechyd | Y saith Bwrdd Iechyd Lleol (neu BILl). Mae ffiniau'r ardal a gwmpesir gan fwrdd iechyd yn cyfateb i un neu fwy o awdurdodau lleol. Mae 'ôl troed' y bwrdd iechyd yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen i'r saith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. |
| Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Byrddau a sefydlwyd gan y cyrff partneriaeth ledled Cymru. Rhestrir y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar dudalen 16 o'r Canllawiau Statudol hyn. |
| Clystyrau<br><br>(clwstwr cyfan / Grwpiau Datblygu Clwstwr Cyfan) | Cyfeirir at glystyrau fel 'clystyrau gofal sylfaenol' weithiau, a'u rôl yw dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Nod clystyrau yw hyrwyddo cydweithio rhwng meddygfeydd, fferyllfeydd, practisau deintyddol ac optometryddion, ac integreiddio gwasanaethau gofal sylfaenol â phartneriaid allweddol fel Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector.<br><br>Mae'r term 'clwstwr cyfan' (neu 'lefel clwstwr cyfan') yn cyfeirio at ddwyn clystyrau ynghyd ar sail ôl troed awdurdod lleol. Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan yw'r broses lle mae cynrychiolwyr clystyrau yn dod ynghyd ar lefel awdurdod lleol i gydweithio â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a byrddau iechyd, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, cynllunwyr a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau nad yw Mentrau Cydweithredu Proffesiynol yn briodol ar eu cyfer – er enghraifft, gwasanaethau y dylid eu cynllunio ar lefel leol, ranbarthol neu hyd yn oed genedlaethol yn unig. |
| Comisiynu a Chydgomisiynu | Mae gwaith **comisiynu'n** cael ei wneud i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei asesu, ei gynllunio a'i drefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn y ffordd orau, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.<br><br>Mae'n cynnwys deall anghenion unigolion a'r boblogaeth, sefydlogrwydd a digonolrwydd marchnadoedd a darparwyr gofal, ac argaeledd adnoddau lleol (yn cynnwys cyllid, y gweithlu a'r amrywiaeth o asedau cymunedol) gan alluogi comisiynwyr i ddeall cymunedau lleol ac efallai y bydd y rhain yn wahanol yn dibynnu ar yr angen a'r asedau lleol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fodelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnig gwerth i'r cyhoedd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfun hon, mae comisiynwyr yn datblygu cysylltiadau a threfniadau ar draws system gyfan, i gynllunio, gweithredu ac adolygu ymyriadau sy'n diwallu anghenion pobl am ofal a chymorth.<br><br>Mae comisiynu'n gofyn am bersbectif system gyfan a'r gallu i feithrin a hwyluso amrywiaeth o berthnasoedd cydweithredol a chydgynhyrchiol. |

| | |
|---|---|
| | **Cydgomisiynu** yw pan fydd comisiynwyr, ar lefelau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol, yn cydweithio i ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, gan gynnwys drwy drefniadau cyllideb cyfun, a lle maent yn rhannu'r cyfrifoldeb, y costau a'r risgiau ar gyfer cynllunio a darparu gwell canlyniadau gofal a chymorth i boblogaethau lleol. Bydd y Comisiynwyr yn cytuno rhyngddynt pa sefydliad fydd yn arwain ar ran y llall/lleill. |
| Cyrff partneriaeth | Y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol mewn rhanbarth y mae'n ofynnol iddynt sefydlu trefniadau partneriaeth o dan Ran 9 o Ddeddf 2014. |
| Deddf 2014 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| Gofalwr | Yn y Canllawiau Statudol hyn, mae person yn ofalwr os yw'n bodloni'r diffiniad o 'ofalwr' yn adran 3 o Ddeddf 2014.<br><br>Fel rheol, mae gofalwr yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl yn ei gartref ei hun fel arfer. At ddibenion polisi, mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r term 'gofalwr di-dâl' i wahaniaethu rhyngddyn nhw a gweithwyr gofal â thâl. Mae'n bwysig nodi, at ddibenion Deddf 2014, **nad** yw person yn ofalwr os yw'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu fel gwaith gwirfoddol.<br><br>Dylid nodi hefyd, fodd bynnag, fod gan awdurdod lleol, o dan adran 3(8) o Ddeddf 2014, ddisgresiwn i drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu (neu i'w ddarparu) iddo yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny. |
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Cronfa bum mlynedd (2022-27) a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r cyrff partneriaeth i ddatblygu chwe model gofal integredig cenedlaethol. |
| IFST / Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd | Gweler Pennod 9 o'r Canllawiau Statudol hyn. |
| IMTP / Cynlluniau Tymor Canolig Integredig | Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lunio'r rhain bob tair blynedd. Maen nhw'n nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â meysydd anghenion iechyd y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd. |
| '**Rhaid** / **ni chaniateir**'<br><br>*Hefyd '**caiff** / **dylai** / **ni ddylai**'* | Yn y Canllawiau Statudol hyn, ystyr '**rhaid'** yw gofyniad y mae'n rhaid i'r cyrff partneriaeth (awdurdodau lleol a byrddau iechyd) neu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ('y Byrddau') weithredu yn unol ag ef. Mynegir canllawiau fel '**caiff**', '**dylai**' neu '**ni ddylai**', ac er nad ydynt yn orfodol, dylid cydymffurfio â nhw lle bynnag y bo modd. |
| Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth | Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (fel y'u diwygiwyd). |

# 1. Cyflwyniad - Dyletswydd i gydweithredu

1. Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â’u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion, plant a gofalwyr sydd ag anghenion am ofal a chymorth. Mae’r rhan hon yn rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu ag awdurdodau lleol a darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol mewn perthynas â’u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
2. Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd (‘cyrff partneriaeth’) er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Hefyd, mae’n darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfun) a byrddau partneriaethau. Bwriedir i Ran 9 gael ei darllen yng nghyd-destun Deddf 2014 yn ei chyfanrwydd.
3. Diben allweddol Rhan 9 yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio’n effeithiol, ac yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol perthnasol eraill, i wella canlyniadau iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau integredig.
4. Gellir disgrifio nodau allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
    - gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
    - gwella canlyniadau llesiant
    - darparu gofal a chymorth cydgysylltiedig a di-dor sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modelau gofal integredig
    - defnyddio adnoddau, sgiliau, ac arbenigedd yn fwy effeithiol drwy weithio mewn ffordd integredig.

5. Yn aml, bydd ar unigolion, eu teuluoedd a’u gofalwyr angen gofal neu gymorth gan fwy nag un gweithiwr proffesiynol neu sefydliad. Mewn achosion o’r fath, dylid cydgysylltu a darparu’r gofal a’r cymorth er mwyn diwallu eu hanghenion penodol, gan sicrhau profiad gwasanaeth di-dor a chyfannol. O safbwynt pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, dylai hyn olygu’r canlynol:

    - Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i, ac mae pobl yn cydweithio i’m deall i, fy nheulu a’m gofalwyr (a’n hanghenion), gyda fy lles pennaf i yn ganolog i hynny, a minnau’n cael llais, dylanwad a rheolaeth, gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau a’r rhwydweithiau cymorth fydd yn cyflawni’r canlyniadau sy’n bwysig i mi.

6. Dyroddir y Canllawiau Statudol: Trefniadau Partneriaeth hyn o dan adran 169 o Ddeddf 2014. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth roi sylw i'r canllawiau hyn mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth sy'n ofynnol o dan adran 166 o Ddeddf 2014. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn gymwys i'r byrddau partneriaeth y mae'n ofynnol i'r cyrff partneriaeth eu sefydlu mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth hynny, ac i unrhyw dîm neu berson sy'n gweithredu'r trefniadau partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ([1]). Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cwmpasu adran 167 (adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth) ac adran 168 (byrddau partneriaeth) o Ddeddf 2014.

7. Bwriedir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ('y Byrddau') ddarparu'r fforwm a'r amgylchedd priodol fel bod partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn gallu dod ynghyd a rhannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn datblygu dulliau integredig o gynllunio, comisiynu a threfnu gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant cymunedol ar gyfer eu poblogaeth.

8. Ni fydd y canllawiau statudol hyn yn diffinio manylion ynglŷn â sut y **dylai'r** cyrff partneriaeth neu'r Byrddau deilwra eu dull o reoli busnes y bartneriaeth a gwireddu blaenoriaethau rhanbarthol. Bydd angen i'r cyrff partneriaeth a'r partneriaid eraill sy'n gwasanaethu ar y Byrddau lunio a chytuno ar y manylion hyn. Fodd bynnag, mae'n amlinellu cyfres o safonau gofynnol ac egwyddorion y mae'n rhaid i'r cyrff partneriaeth a'r Byrddau gydymffurfio â nhw.

9. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth a'r Byrddau weithredu yn unol â'r gofynion yn y Canllawiau Statudol hyn. Yn y ddogfen hon, mynegir gofyniad fel '**rhaid**' neu '**ni chaniateir**' a mynegir canllawiau fel '**caiff**' neu '**dylai / ni ddylai**'.

10. Mae'r canllawiau statudol hyn yn cymryd i ystyriaeth ddiwygiadau i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth a wnaed drwy Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

---

1 Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn darparu ar gyfer Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Rheoliad 16). Mae'r gofynion yn ymwneud â Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'w gweld ym Mhennod 9 o'r Canllawiau Statudol hyn.

## 2. Y Cefndir Deddfwriaethol

11. Mae Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ("Deddf 2006") yn galluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu partneriaethau ffurfiol a dirprwyo gweithredu swyddogaethau o un corff i'r llall. Mae Deddf 2006 yn galluogi awdurdod lleol i ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai swyddogaethau penodedig i'r bwrdd iechyd, neu i'r bwrdd iechyd ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai swyddogaethau penodedig i'r awdurdod lleol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig, comisiynu integredig (neu ar y cyd), a threfniadau ar gyfer cronfeydd cyfun i alluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig.

12. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu o dan Ran 9 o Ddeddf 2014 **yr un mor berthnasol** i awdurdodau lleol ag i fyrddau iechyd. Mae'r ddyletswydd yn nodi sut mae'r cyrff hyn yn atebol am gyflawni eu swyddogaethau, er enghraifft drwy adolygiad allanol gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a thrwy gyflwyno adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru.

13. Galluogodd Deddf Plant 2004 ddatblygiad cronfeydd cyfun ond mae'r rhain yn dra gwahanol i drefniadau'r gronfa gyfun yn Neddf 2006. Mae Deddf Plant 2004 yn galluogi amrywiaeth ehangach o 'bartneriaid perthnasol' i gyfrannu at y gronfa gyfun, ond nid yw'n caniatáu dirprwyo swyddogaethau rhwng partneriaid – h.y. nid yw'n gwneud darpariaeth i un partner gyflawni swyddogaethau partner arall, neu i un partner ddarparu gwasanaethau partner arall yn hytrach na'i wasanaethau ei hun. Yn hytrach, mae'n cynnig cyfle i gytuno ar amcanion ar y cyd a chyfrannu at y gost o gyflawni'r amcanion hyn drwy ba bartner bynnag sy'n gyfrifol yn gyffredinol am ddarparu gwasanaethau. Mae adran 162 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer ariannu gwasanaethau i oedolion a gofalwyr, ac yn debyg i Ddeddf Plant 2004, mae'n gallu cynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth ehangach o bartneriaid, ond nid yw'n darparu ar gyfer dirprwyo cyflawni swyddogaethau rhwng partneriaid.

14. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu a chyflwyno partneriaethau ffurfiol sy'n cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd (2).

15. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 yn gyson â'r trefniadau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cwblhau'r asesiad o anghenion y boblogaeth o dan adran 14 o Ddeddf 2014. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd perthnasol gwblhau asesiad ar y cyd o anghenion y boblogaeth leol ar gyfer gofal a chymorth,

2 O.S. 2000/2993 (Cy.193). Cafodd Rheoliadau 2000 eu gwneud o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ond maent yn cael eu trin fel pe baent wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2006 yn unol â Deddf Dehongli 1978.

cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol. Hefyd, mae'n nodi bod angen asesu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn.

16. Cafodd nifer o nodiadau cyngor eu darparu i helpu i ddatblygu partneriaethau ffurfiol a chronfeydd cyfun o dan Ddeddf 2006 a Deddf Plant 2004. Cafodd y nodiadau cyngor hyn eu diweddaru ymhellach ym mis Gorffennaf 2019, pan ddatblygodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru becyn cymorth i helpu partneriaid gyda chronfeydd cyfun:

https://www.adss.cymru/image/event/DTG%20-%20Advice%20Notes/ADSSC-FINAL%20AN1%20-%20Introduction%20to%20Integration.pdf

17. **Rhaid** darllen y Bennod hon ochr yn ochr â'r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025
- Y Cod Ymarfer ar Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad (2021)
- Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) (fersiwn 2024).
- Cod Ymarfer Rhan 10 mewn perthynas ag Eiriolaeth (2019)
- Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer (2024).

# 3. Y Cyd-destun Polisi

## Cymru Iachach

18. Mae *Cymru Iachach* (2018) yn nodi bod Rhan 9 y trefniadau partneriaeth rhanbarthol hyn a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sbardunau allweddol ar gyfer integreiddio ar lefel ranbarthol, a’u bod yn gallu cyfuno adnoddau ac arbenigedd er mwyn darparu modelau gofal ataliol, di-dor (3).

19. Mae nodau a dyheadau *Cymru Iachach* yn adeiladu ar egwyddorion a bwriadau Deddf 2014 ac yn gyson â’r Canllawiau Statudol hyn.


20. Mae *Cymru Iachach* yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i drawsnewid y system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cefnu ar ofal acíwt mewn ysbytai a symud tuag at iechyd, llesiant a gweithgarwch atal yn y gymuned. Dangosir hyn yn ffigur 1 isod.




**Ffigur 1 Nodau triniaeth mewn ysbytai ac ym maes gofal, Cymru Iachach**

21. Hefyd, mae *Cymru Iachach* yn ceisio hyrwyddo’r broses o rannu dysgu ac arferion da rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu esblygu a chael ei thrawsnewid drwy adeiladu ar arferion da yn lleol i hwyluso mabwysiadu modelau rhanbarthol a sefydlu modelau gofal cenedlaethol yn y pen draw.

**3** Dolen at ddogfen bolisi Cymru Iachach ar wefan Llywodraeth Cymru




**Ffigur 2 Symud tuag at System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru**

22. Yn unol â’r uchelgeisiau a osodwyd yn *Cymru Iachach*, datblygwyd glasbrint ar gyfer datblygu System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru. Bydd y glasbrint hwn yn gweithredu fel map trywydd ar gyfer cyrff partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned yn cael eu hintegreiddio i ddiwallu anghenion iechyd, gofal a llesiant y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth. Mae hefyd yn nodi’r galluogwyr system allweddol (gweler pwynt 34) a fydd yn hanfodol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau integredig. Yn ganolog iddo, mae’r glasbrint yn defnyddio dull gofal a chymorth integredig, ataliol ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Wrth i’r System Gofal Cymunedol Integredig esblygu, bydd set o safonau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn sy’n canolbwyntio ar yr hyn y dylai pobl ei ddisgwyl gan wasanaethau integredig a’r hyn y bydd y gweithlu, sefydliadau a sectorau yn ei wneud i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl.

23. Un o brif egwyddorion y System Gofal Cymunedol Integredig yw y dylai pobl allu adnabod a chael mynediad at fodelau integredig o ofal cymunedol, ble bynnag y bônt yng Nghymru, sy’n darparu:

- dull atal a chydgysylltu cymunedol
- gofal cymhleth yn nes at y cartref
- hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- cefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ddiogel, a chynnig cymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- cefnogi gwasanaethau gartref o’r ysbyty diogel ac effeithiol
- amrywiaeth o atebion sy’n seiliedig ar lety.

24. Bydd cyrff partneriaeth yn gwneud defnydd effeithiol o drefniadau’r bwrdd partneriaeth rhanbarthol i ddeall effeithiolrwydd eu modelau presennol o gomisiynu a darparu gwasanaethau, ystyried ymchwil, tystiolaeth ac arferion da o rannau eraill o Gymru a thu hwnt, a mabwysiadu modelau rhanbarthol cyfan

o ddarparu gwasanaethau integredig, sy'n cyd-fynd â safonau ac egwyddorion cenedlaethol.

25. Un o'r sbardunau allweddol i hyrwyddo integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a datblygu modelau gofal cenedlaethol yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Sylfaen ganolog y Gronfa yw datblygu a gwreiddio chwe model gofal integredig cenedlaethol sy'n darparu gofal a chymorth i'r grwpiau poblogaeth blaenoriaeth sy'n cael eu hamlinellu ym mharagraffau 172 a 173 o'r canllawiau statudol hyn.

26. Mae *Cymru Iachach* yn cynnwys cam allweddol sy'n nodi bod angen i glystyrau gofal sylfaenol barhau i ddatblygu modelau o waith partneriaeth lleol di-dor, gan weithio'n agos â'r cyrff partneriaeth i hyrwyddo ffyrdd trawsnewidiol o weithio sy'n cael eu mabwysiadu ar draws Cymru. Mae Pennod 6 o'r Canllawiau Statudol hyn yn amlinellu sut y dylai'r cyrff partneriaeth gysoni eu gwaith â'r trefniadau partneriaeth a nodir o dan y Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen hon ar gael yma: Rhaglen Strategol – Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru).

## Diffinio integreiddio

27. Mae integreiddio yn golygu bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfannol ac yn ddi-dor i gydnabod, ymateb i, a diwallu anghenion iechyd, llesiant, gofal a chymorth pobl a chymunedau.

28. Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant sy'n cael eu cynllunio/comisiynu, eu trefnu, a'u darparu ar y cyd ar draws sectorau a ffiniau sefydliadol.

29. Bwriedir i'r Byrddau ddarparu'r fforwm a'r amgylchedd priodol i'r cyrff partneriaeth allu dod ynghyd â phartneriaid perthnasol eraill i rannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn datblygu dulliau integredig o gynllunio, comisiynu a threfnu gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant cymunedol ar gyfer eu poblogaeth.

30. Er mai'r uchelgais yng Nghymru yw symud yn fwyfwy tuag at gynnig iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, ar hyn o bryd mae'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod ar wahân yn ddeddfwriaethol ac yn strwythurol. Gan weithio oddi mewn i'r cyd-destun strwythurol hwn, bydd angen i'r cyrff partneriaeth wneud defnydd effeithiol o'r fforwm a gynigir gan y Byrddau er mwyn cydweithredu'n effeithiol i gynllunio a datblygu cynnig iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer pobl yn eu rhanbarth.

31. Cydnabyddir bod y dirwedd ddeddfwriaethol a strwythurol bresennol yn cynnwys sbectrwm o gydlynu gwasanaethau y mae'n rhaid i'r cyrff partneriaeth ei ystyried a'i ddatblygu ochr yn ochr â dyhead i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor ac integredig ar gyfer pobl Cymru a fynegir yn *Cymru Iachach*. **Dylai'r** cyrff partneriaeth barhau i esblygu eu darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy di-dor ac integredig. Gan gydnabod cyfyngiadau system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gyfreithiol ac yn strwythurol wahanol, bydd

angen i'r cyrff partneriaeth ystyried y lefel fwyaf priodol ac ymarferol o gydlynu ar gyfer gwahanol gydrannau darparu gwasanaethau. Er mwyn dangos bod camau'n cael eu cymryd tuag at hyn, gydag integreiddio llawn yr ateb mwyaf cyflawn, gallai darpariaeth gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol fod:

- wedi'i halinio – gwasanaethau nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'i gilydd ond sy'n ymwybodol o'i gilydd ac yn ategu ei gilydd
- yn gydgysylltiedig – gwasanaethau ar wahân sy'n ategu ei gilydd ac yn cael eu cynllunio a'u cydlynu gyda llwybrau atgyfeirio cysylltiedig er mwyn sicrhau mynediad hwylus
- yn ddi-dor – gwasanaethau cysylltiedig sy'n cael eu cynllunio a'u cydlynu gydag un pwynt cyswllt/atgyfeirio, gan gynnig llwybr gofal a chymorth di-dor i bobl wedi'i ddarparu gan dimau iechyd a gofal cymdeithasol ar wahân ond sydd wedi'u cysylltu'n dda
- yn integredig – un gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig gydag un pwynt cyswllt/atgyfeirio sy'n cynnig un llwybr iechyd a gofal cymdeithasol cyfannol, wedi'i ddarparu gan dîm iechyd a gofal integredig.

32. Er mwyn sicrhau manteision cynnig iechyd a gofal cymdeithasol integredig, **dylai'r** cyrff partneriaeth gydweithio â phartneriaid rhanbarthol eraill sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd i wneud y canlynol:

- sicrhau bod pobl yn ganolog i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar y cyd
- gwella canlyniadau llesiant drwy ddarparu gwasanaethau integredig
- gwella ansawdd gwasanaethau a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau drwy ddulliau ac adnoddau integredig
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig ar draws y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth, drwy weithio mewn ffordd integredig
- gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a systemau drwy ddulliau ac adnoddau integredig

33. O safbwynt cynllunio a chomisiynu, bydd angen i'r cyrff partneriaeth a'r Byrddau ystyried integreiddio â'r system ar dair lefel:

- **macro**: integreiddio sefydliadol/strategol ac integreiddio sy'n canolbwyntio ar y system ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol
- **meso**: integreiddio ar lefel gwasanaethau a'r gweithlu; mae'r broses hon yn cael ei hystyried yn un endid o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr
- **micro**: darparu gofal a chymorth integredig ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr unigol.

34. Galluogwyr System Integredig

Mae angen i ystod o alluogwyr system allweddol fod ar waith i helpu i gyflawni'r modelau gofal cymunedol integredig arfaethedig. Mae angen gwaith ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i sicrhau bod y galluogwyr system hyn yn cyd-

fynd yn llawn â’r uchelgais o gael System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru a’u bod yn gallu cefnogi hynny, fel y nodir isod:

a. Canlyniadau a Mesurau – sefydlu canlyniadau a mesurau y cytunir arnynt gan ddarparwyr iechyd, gofal a thai sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus.

b. Gweithlu – datblygu gweithlu medrus a gwydn a rhoi’r gallu iddo weithio mewn ffordd integredig, gan ddarparu gofal o ansawdd uchel yn y gymuned.

c. Systemau Gwybodaeth Ddigidol - gweithredu systemau gwybodaeth ddigidol sy'n caniatáu proses ddi-dor o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau, gyda'r nod o greu cofnod gofal a rennir.

d. Rhannu Adnoddau a Chyfleusterau – cyfuno cyllidebau ac adnoddau, creu hybiau gwasanaeth integredig, a gwneud y gorau o'r adnoddau ar y cyd sydd ar gael ar draws y sectorau cyhoeddus a chymunedol i ddarparu gofal effeithlon ac effeithiol.

e. Llywodraethiant ac Atebolrwydd – sicrhau bod strwythurau llywodraethiant a mecanweithiau atebolrwydd cadarn ar waith i helpu’r system gofal integredig i weithredu’n effeithiol, gan gynnwys systemau arolygu integredig.

f. Llwybrau Asesu a Gofal Integredig – datblygu llwybrau gofal di-dor sy'n helpu pobl i ganfod eu ffordd drwy'r modelau gofal sydd ar gael, gan sicrhau bod unigolion yn cael y cymorth cywir yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

g. Arweinyddiaeth a Diwylliant – hyrwyddo diwylliant o gydweithredu ac integreiddio o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol, gan rymuso arweinwyr i yrru newid ac arloesi.

h. Technoleg ac Arloesedd – manteisio i’r eithaf ar dechnoleg ac arloesedd, gan gynnwys gofal a alluogir gan dechnoleg a deallusrwydd artiffisial, i wella’r ddarpariaeth gofal ac i helpu unigolion i aros yn iach gartref.

i. Cynllunio a Chomisiynu – sicrhau bod partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer eu hardaloedd yn effeithiol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion cymunedau.

j. Atebion yn seiliedig ar Lety – sicrhau ein bod yn buddsoddi i ddatblygu a/neu addasu cartrefi a fydd yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol cyn hired â phosibl.

35. Mae plant, pobl ifanc, oedolion, gofalwyr, eu teuluoedd a’u cymunedau yn asedau pwysig ac mae ganddynt sgiliau, arbenigedd a galluoedd. Maent yn ganolog i’r fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2014. Bydd cydgynhyrchu â phobl yn allweddol i sicrhau llesiant a datgloi’r potensial ar gyfer

creadigrwydd a fydd yn gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael.

## Diffiniad o lesiant

36. Mae adran 2 o Ran 1 o Ddeddf 2014 yn darparu diffiniad clir o lesiant sy'n gymwys i'r canlynol:

- pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

37. Mae'r cyfeiriad at lesiant yn Neddf 2014 yn golygu llesiant person y mae arno angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth mewn perthynas ag unrhyw un o'r agweddau canlynol:

- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- cyfraniad a wneir at gymdeithas
- sicrhau hawliau a hawlogaethau
- llesiant cymdeithasol ac economaidd
- addasrwydd llety preswyl.

38. O ran plentyn, mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- 'lles' fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

39. O ran oedolyn, mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- rheolaeth dros fywyd pob dydd
- cymryd rhan mewn gwaith.

40. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 i geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon i geisio hyrwyddo llesiant yn gymwys i bob person a chorff sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a'r cyrff partneriaeth.

41. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y'u rhagnodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y cyfrifoldeb ehangach i sicrhau'r amgylchedd a'r amodau cywir i wella llesiant ar gyfer y boblogaeth gyfan drwy ganolbwyntio ar y saith nod llesiant canlynol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal

- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

42. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio'n benodol ar gynllunio i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a fydd yn ei dro yn hyrwyddo llesiant gwell. **Dylai'r** Byrddau gysylltu'n rheolaidd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod eu blaenoriaethau llesiant yn cyfateb.

# 4. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

43. Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â threfniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd (y cyrff partneriaeth). Nodir y trefniadau hyn yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth), a sefydlodd Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Y swyddogaethau sydd angen eu cyflawni yn unol â'r trefniadau partneriaeth yw'r swyddogaethau sy'n cael eu disgrifio yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth.

44. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth ym mhob ardal bwrdd iechyd wneud trefniadau partneriaeth, o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Byrddau swyddogaeth allweddol wrth ddod â'r cyrff partneriaeth at ei gilydd gyda rhanddeiliaid eraill i benderfynu ble y bydd darparu gwasanaethau, gofal a chymorth mewn modd integredig yn fwyaf buddiol i bobl yn eu rhanbarth. Hefyd, bydd y Byrddau yn gwneud cyfraniad hanfodol at oruchwylio a llywodraethu trefniadau partneriaeth.

45. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol canlynol wedi'u sefydlu:

- **Caerdydd a'r Fro**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg

- **Cwm Taf Morgannwg**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- **Gwent**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

- **Gogledd Cymru**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- **Powys**

  Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys

- **Gorllewin Morgannwg**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

- **Gorllewin Cymru**

  Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion

46. **Dylai'r** Byrddau gyhoeddi rhestr lawn o'r sefydliadau sy'n aelodau ohonynt ar eu gwefannau.

## Amcanion a swyddogaethau

47. Mae Rheoliad 10 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn amlinellu amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yr amcanion yw:

- sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r asesiad anghenion poblogaeth
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflwyno'r cynllun ardal ar y cyd
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a baratowyd yn unol ag adran 144B o'r Ddeddf
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o Ddeddf 2014) wrth ymateb i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a gweithredu eu cynlluniau ardal ar y cyd
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogiad plant o dan 18 oed mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac a wneir wrth arfer y trefniadau partneriaeth (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010)
- sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth
- hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol
- gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd (Llais) i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr wrth gyflawni'r trefniadau rhanbarthol.

48. Wrth fynd ar drywydd yr amcanion uchod, bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r swyddogaethau allweddol canlynol:

- cynllunio strategol integredig, gan sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio i lunio eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal ar y cyd
- cynllunio gweithredol integredig lle mae angen ymateb iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd – er enghraifft, datblygu cynlluniau pwysau tymhorol integredig, gweithredu'r modelau cenedlaethol o ofal integredig, a datblygu strategaethau a chynlluniau cydgomisiynu
- creu'r amodau cywir i gefnogi integreiddio effeithiol a darparu gwasanaethau di-dor
- goruchwylio'r buddsoddiad strategol a gweinyddiaeth adnoddau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu dyrannu i'r cyrff partneriaeth.
- helpu i sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth, neu wasanaethau ataliol, a gofalwyr, yn cymryd rhan lawn mewn dylunio a darparu'r gwasanaethau hynny, yn unol ag egwyddorion Deddf 2014 – yn enwedig cydgynhyrchu, llais a rheolaeth

- llunio adroddiad blynyddol ar gynnydd a wnaed drwy gydol y flwyddyn yn erbyn blaenoriaethau a cherrig milltir allweddol.
- hwyluso datblygiad marchnad gofal cymdeithasol gytbwys drwy hyrwyddo mwy o ddarpariaeth gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol gan fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a'r trydydd sector
- defnyddio myfyrdodau o'r adroddiad blynyddol i ddatblygu cynllun blynyddol sy'n nodi amcanion a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod
- hwyluso comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal integredig ar y cyd, a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfun i ddod â staff, nwyddau a gwasanaethau at ei gilydd
- cynllunio'n strategol y gwaith o ddatblygu seilwaith cymunedol lleol drwy ddatblygu a gweithredu cynllun cyfalaf strategol 10 mlynedd a fydd yn cefnogi cyflawni'r cynllun ardal.

49. **Dylai'r** Byrddau gydnabod bod rhyngwynebau eraill rhwng eu swyddogaethau a meysydd allweddol eraill megis cynllunio a darparu gofal brys, gofal eilaidd integredig ac atebion gofal heb ei drefnu/gofal wedi'i gynllunio.

50. **Nid** yw'r Byrddau yn gyfrifol am gynhyrchu, cynllunio na datblygu gwaith craidd y cyrff partneriaeth, megis cynlluniau statudol awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd. Mae'r cyfrifoldebau hynny yn perthyn i'r cyrff priodol, er y **caiff** y byrddau partneriaeth ymgynghori neu ymgysylltu â'r Bwrdd wrth eu llunio, fel corff sydd â diddordeb.

## Aelodaeth

51. Mae aelodaeth y Byrddau yn adlewyrchu natur amlsector y bartneriaeth. Yn ogystal â chynrychiolwyr o'r cyrff partneriaeth a chyrff cyhoeddus eraill, mae'r Byrddau yn cynnwys aelodau sy'n ddinasyddion cyffredin (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr) a'r rhai sy'n cynrychioli sefydliadau'r trydydd sector, neu darparwyr gofal a thai.

52. Bydd llawer o aelod-sefydliadau yn gweithredu o fewn ffiniau nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â ffiniau'r Bwrdd. Bydd ganddynt bortffolios amrywiol hefyd – er enghraifft, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am bolisïau y tu hwnt i ofal cymdeithasol, yn cynnwys tai ac addysg. Serch hynny, rhaid cael cydbwysedd rhwng sefydlu nifer ymarferol o aelodau'r Bwrdd a sicrhau'r gynrychiolaeth fwyaf cyflawn posibl.

53. Mae'n bwysig cofio bod holl aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys aelodau cyfetholedig) yn bartneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau. (Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i aelodau arsylwi annibynnol, fel yr eglurir ym mharagraff 58 o'r canllawiau statudol hyn.) O ystyried yr ystod eang o gyfranogwyr, dylai'r Bwrdd fod yn glir iawn ynglŷn â pham y mae materion penodol yn cael eu

cyflwyno iddo, y camau i'w cymryd a'r math o benderfyniad y mae disgwyl iddo ei wneud, gan sicrhau ei fod yn gyson â chylch gwaith a chymhwysedd y Bwrdd.

54. Mae Rheoliad 11 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn amlinellu aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Maent wedi'u rhestru isod.

55. **Rhaid** i'r aelodaeth gynnwys:

**Awdurdodau lleol**

- o leiaf un aelod etholedig (cynghorydd) o awdurdod lleol a sefydlodd y Bwrdd
- y person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o Ddeddf 2014 mewn cysylltiad â phob awdurdod lleol a sefydlodd y Bwrdd, neu ei gynrychiolydd enwebedig (**4**)
- o leiaf un uwch-swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am dai gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gysylltiadau â buddsoddiadau cyfalaf mewn tai, yn un o'r ardaloedd a gwmpesir gan y Bwrdd
- o leiaf un uwch-swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am addysg yn un o'r ardaloedd a gwmpesir gan y Bwrdd

**Byrddau iechyd**

- o leiaf un aelod o'r bwrdd iechyd a sefydlodd y Bwrdd (dylai fod yn aelod anweithredol)
- o leiaf un cynrychiolydd o'r bwrdd iechyd a sefydlodd y Bwrdd (dylai fod yn gyfarwyddwr gweithredol) (**5**)

**Y Trydydd sector**

- o leiaf dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd
- o leiaf un person sy'n cynrychioli'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd

**Darparwyr gofal**

- o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd
- o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd
- o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal sylfaenol ar gyfer yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd

**Dinasyddion**

- o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau pobl ag anghenion gofal a chymorth yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd
- o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau gofalwyr yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd.

**Arall**

- cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(**4**) Dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd fod yn 'berson cyfrifol' ar gyfer eu hawdurdod lleol priodol – gweler paragraffau 201 i 203 o'r Canllawiau Statudol hyn.
(**5**) **Dylai'r** aelod hwn hefyd fod yn 'berson cyfrifol' ar gyfer y bwrdd iechyd – gweler paragraffau 201 i 203 o'r Canllawiau Statudol hyn.

56. **Caiff** y Byrddau gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau o'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn cyfeirio at isafswm aelodaeth y Byrddau, ond mae nifer y cynrychiolwyr ac ystod y bobl dan sylw yn fater i'w benderfynu'n lleol.

57. Mae pobl eraill y gellid eu hystyried i'w cyfethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth tân, yr heddlu, ac iechyd y cyhoedd.

## Sylwedyddion annibynnol

58. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn darparu y caiff Byrddau wahodd sefydliadau i ddod yn sylwedyddion annibynnol, fel y bo'n briodol yn eu tyb hwy. **Ni ddylai'r** sylwedyddion annibynnol hyn gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol y Bwrdd na chael pleidlais. Fodd bynnag, **dylent** allu cyflwyno sylwadau a chymryd rhan yn nhrafodaethau'r bwrdd.

### Corff Llais y Dinesydd

59. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau weithio gyda Chorff Llais y Dinesydd (a elwir yn Llais) i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol. Mae Llais yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n annibynnol ar y llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol, ond mae'n gweithio gyda nhw i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn barhaus. **Rhaid** i'r Byrddau weithio gyda Llais i hyrwyddo cyfranogiad a chydgynhyrchu gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol.

60. **Rhaid** i'r Byrddau wahodd aelod o Llais i ddod yn sylwedydd annibynnol ar y Bwrdd. Bydd statws sylwedydd annibynnol yn helpu i hwyluso datblygiad y berthynas rhwng Llais a'r Bwrdd.

## Creu'r amgylchedd cywir

61. Mae cyfansoddiad y Byrddau wedi'i gynllunio i adlewyrchu cwmpas a swyddogaethau'r bartneriaeth ranbarthol, a sicrhau bod cynlluniau strategol a threfniadau comisiynu yn cael eu llywio gan wybodaeth a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, darparwyr gwasanaethau, y trydydd sector a'r cyrff statudol. Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn gallu rhannu gwybodaeth a mewnwelediadau penodol, gan lywio a llunio'r broses gynllunio strategol drwy eu safbwynt penodol hwy. Mae pob aelod o'r Bwrdd yn llais cynrychioliadol ar gyfer eu sefydliad neu eu sector, ac maent yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn hyrwyddo cydweithio.


62. **Dylai'r** Bwrdd geisio sicrhau aelodaeth amrywiol yn unol ag ysbryd cynhwysol gweithio mewn partneriaeth, gan gefnogi'r egwyddor o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

63. Drwy ddwyn ynghyd gynllunwyr strategol, darparwyr gwasanaethau a dinasyddion ar y Bwrdd, mae modd creu deinamig unigryw sy'n gallu bod yn heriol ar adegau, yn sgil profiadau, iaith, a blaenoriaethau cyferbyniol gwahanol yr aelodau. Cyfrifoldeb holl aelodau'r Bwrdd yw sicrhau bod pob aelod yn gallu gwneud cyfraniad llawn a chyfartal at waith y Bwrdd, a'u bod yn creu diwylliant o barch a chynhwysiant.

64. Mae'n hanfodol bod dinasyddion yn ganolog i ystyriaethau'r Bwrdd. Fel aelodau llawn o'r Bwrdd, mae'n bwysig iawn bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn gallu deall a chyfrannu at yr amrywiaeth gyfan o faterion sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd.

65. Dylai'r aelodau sy'n gweithio i'r cyrff partneriaeth neu gyrff cyhoeddus eraill ddeall a gwerthfawrogi swyddogaeth a chyfraniad posibl aelodau ehangach y Bwrdd, a'r gwerth y maent yn ei ychwanegu at waith bwrdd y Bwrdd a'r bartneriaeth ehangach.

66. Mae Ffigur 3 yn dangos sut y mae'r aelodau yn gallu dod â sawl safbwynt ynghyd, gan gydnabod y gallai aelodau ddod â mwy nag un safbwynt ar y tro.




**Ffigur 3 Tair elfen Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r aelodaeth**

## Partneriaid profiad bywyd

67. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth gynnwys dinasyddion yn eu gwaith a gallu dangos sut y maent wedi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar bob lefel gan gynnwys asesu anghenion, cynllunio strategol, a chynllunio a darparu gwasanaethau. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth roi trefniadau clir ar waith ar gyfer

ymgysylltu a chyfranogi, gan gynnwys trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau ystod eang o ddinasyddion a'u hadrodd yn ôl i'r Bwrdd.

68. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd i gynrychioli buddiannau pobl sydd angen gofal a chymorth ac o leiaf un aelod i gynrychioli buddiannau gofalwyr. Bydd cynnwys yr aelodau hyn yn helpu i sicrhau bod gwerthoedd cydgynhyrchu, ymgysylltu a llais yn rhan annatod o waith y Bwrdd, a bod profiadau byw defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn helpu i lunio a llywio dyluniad a darpariaeth gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac ataliol integredig ar draws y rhanbarth.

69. Mae'r aelodau sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn ofalwyr yn lleisiau cynrychioliadol ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr yn y rhanbarth. Mae potensial hefyd iddynt weithredu fel eiriolwyr pobl sy'n derbyn gwasanaethau. Yn ogystal â'u profiad eu hunain o dderbyn neu roi gofal a chymorth, maent yn gallu cyflwyno elfen o her adeiladol i waith y Bwrdd. Fodd bynnag, nid oes modd disgwyl iddynt gynrychioli pawb sydd angen gofal a chymorth na phob gofalwr. Maent yn gwasanaethu ar y Bwrdd fel unigolion ac maent yn lleisiau cynrychioladol yn hytrach na chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Ni ddylent fod yr unig fodd neu'r prif fodd o adrodd safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr. **Dylai'r** Bwrdd roi mecanweithiau ar waith ar gyfer casglu barn ystod eang o ddinasyddion a'u bwydo'n ôl i'r Bwrdd. Hefyd, bydd angen i'r Bwrdd ystyried y ffordd orau o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw is-grwpiau neu fforymau sydd wedi'u sefydlu o dan lefel y Bwrdd.

70. Mae Byrddau yn gweithredu ar lefel strategol oddi mewn i'r bartneriaeth ranbarthol ehangach, a dylai swyddogaeth a chyfraniad aelodau'r Bwrdd adlewyrchu hyn. Mae aelodau'r Bwrdd sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwr yn gweithredu fel y cam gwirio strategol terfynol i sicrhau bod y trefniadau partneriaeth wir yn mynd ati i gydgynhyrchu gyda'i ddinasyddion (fel y nodir ym mharagraffau 109 i 118 o'r canllawiau statudol hyn). Mae'r aelodau hyn yn cyflawni swyddogaeth strategol allweddol wrth ddal y bartneriaeth i gyfrif am wneud yr hyn a ddywedodd y byddai'n ei wneud, a sut y mae'r cyrff partneriaeth wedi sicrhau adnoddau a nodi eu dull gweithredu. Dylent bennu i ba raddau y mae'r cyrff partneriaeth a'r Bwrdd yn arfer yr egwyddorion y maent wedi ymrwymo iddynt, a sut y maent yn estyn allan ac yn ymgysylltu â'u poblogaethau lleol.

71. Swyddogaeth aelodau eraill o'r Bwrdd yw hyrwyddo anghenion dinasyddion. Yn benodol, mae aelodau etholedig yr awdurdod lleol (cynghorwyr) sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd yn hyrwyddo lleisiau eu hetholwyr sydd angen gofal a chymorth, neu sy'n darparu gofal di-dâl. Mae gan Gadeirydd y Bwrdd gyfrifoldeb penodol hefyd am sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed ar lefel y Bwrdd ledled y bartneriaeth ehangach (nodir rôl y Cadeirydd ym mharagraffau 86 i 91 o'r canllawiau statudol hyn).

## Plant a phobl ifanc

72. **Rhaid** i'r Byrddau ystyried sut y gall plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr ifanc, a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gyfrannu at eu gwaith ar lefel strategol, yn ogystal â goruchwylio sut y mae'r

cyrff partneriaeth yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yng ngwaith ehangach y bartneriaeth. Bydd hyn yn bwysig iawn os nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar y Byrddau.

73. O dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud y cyfryw drefniadau yr ystyriant sy'n addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau oruchwylio cyflawni'r ddyletswydd adran 12 mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol.

74. O ystyried y cysylltiadau gwaith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (lle mae gan bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ddyletswydd ar y cyd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc), rydym yn annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddilyn yr un egwyddorion a nodir yn y canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (**6**) a rhoi sylw dyladwy i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

75. Gellir crynhoi egwyddorion CCUHP fel a ganlyn:

- Darpariaeth – Pa wasanaethau sydd ar gael ac a ydynt yn diwallu anghenion y boblogaeth Plant a Phobl Ifanc? Beth yw canlyniadau'r broses o wneud penderfyniadau?
- Cyfranogiad – Sut ydych chi'n grymuso, galluogi a chefnogi plant a phobl ifanc i leisio eu barn a sicrhau bod eu barn yn cael ei gymryd o ddifrif ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw? Sut ydych chi'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau?
- Amddiffyn – Rhoi strwythurau a gwasanaethau ar waith sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed, anfantais a gwahaniaethu.

## Partneriaid comisiynu strategol

76. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am gomisiynu strategol, adnoddau, gallu seilwaith a phrofiadau cyflenwi gwasanaethau, rôl partneriaid comisiynu strategol yw goruchwylio ymdriniaeth effeithiol o sicrwydd a phrosesau corfforaethol ar draws cyrff statudol a'r bartneriaeth yn ehangach. Mae'r partneriaid comisiynu strategol yn cynnwys y cyrff partneriaeth (byrddau iechyd, a swyddogion awdurdodau lleol o ofal cymdeithasol, tai ac addysg), y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## Partneriaid gweithredol / darparwyr

## Y Trydydd Sector

77. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys o leiaf dau aelod sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn y rhanbarth. **Dylai** byrddau sicrhau bod un o

(**6**) Dolen at ganllawiau statudol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar wefan llyw.cymru
Gweler yn arbennig rôl gyfun SPSF3, Atodiad B (Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc).

aelodau'r trydydd sector yn cynrychioli sefydliadau'r trydydd sector yn lleol a bod un arall yn cynrychioli sefydliadau trydydd sector cenedlaethol.

78. Ni ellir disgwyl i aelodau'r trydydd sector gynrychioli pob sefydliad yn eu sector, ond bydd angen iddynt sicrhau bod y trydydd sector yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn gallu dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau integredig. Hefyd, **dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod ganddynt ddulliau eraill o gynnwys sefydliadau'r trydydd sector yng ngwaith y bartneriaeth ehangach.

## Darparwyr gofal

79. **Rhaid** i'r Bwrdd gynnwys o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn y rhanbarth. Bydd y darparwyr hyn yn amrywio o gwmnïau preifat mawr i fusnesau bach a chanolig.

80. **Rhaid** i'r Byrddau hefyd gynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal sylfaenol yn y rhanbarth.

81. Ni ellir disgwyl i aelodau'r bwrdd sy'n darparu llais ar gyfer darparwyr gofal gynrychioli'r holl amrywiaeth o ddarpariaeth ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion, neu ym maes gofal sylfaenol, ond dylent allu trafod materion sy'n berthnasol i'r sector cyfan yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd. Hefyd, **dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod ganddynt ddulliau o gynnwys darparwyr gofal yng ngwaith y bartneriaeth ehangach.

## Aelodau ehangach

### Tai

82. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys yr aelodau canlynol i gynrychioli'r maes tai:

**Cynrychiolydd awdurdod lleol**

83. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys o leiaf un uwch-swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am dai, gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf mewn tai, neu gysylltiadau â buddsoddiad cyfalaf mewn tai, yn y rhanbarth. Dylai'r aelod fod ar lefel cyfarwyddwr er mwyn caniatáu iddo ddarparu trosolwg gwybodus ar wella canlyniadau llesiant yng nghyd-destun integreiddio a chydweithio rhwng y meysydd iechyd, tai a gofal cymdeithasol ac er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth defnyddwyr gwasanaethau. Bydd yn cynrychioli cyfarwyddwyr tai eraill yn y rhanbarth a bydd disgwyl iddo gysylltu â strwythurau rhanbarthol, grwpiau perthnasol, a rhwydweithiau er mwyn sicrhau rhagolwg cwbl wybodus. Er enghraifft, bydd y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol a grëwyd o dan y canllawiau Grant Cymorth Tai yn ddull pwysig o hwyluso ymgysylltu a chydweithio.

**Landlord Cymdeithasol Cofrestredig**

84. **Rhaid** i Fyrddau gynnwys o leiaf un person sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y rhanbarth. Ni ellir disgwyl i'r aelodau hyn gynrychioli pob sefydliad yn eu sector, ond bydd angen iddynt sicrhau bod y sector yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn gallu dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau llety integredig, a chyfrannu at hynny, fel y bo'n briodol. Bydd trefniadau ymgysylltu ar gyfer y sectorau hyn yn cynnwys y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol a gafodd eu creu o dan ganllawiau Grant Cymorth Tai a fforymau rhanbarthol eraill (er enghraifft, fforymau a sefydlwyd o dan

ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector).

**Addysg**

85. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys o leiaf un uwch-swyddog yn yr awdurdod sy'n gyfrifol am addysg yn y rhanbarth. **Dylai'r** aelod fod ar lefel cyfarwyddwr i ganiatáu iddo fynegi ei safbwynt ar wella canlyniadau llesiant plant ag anghenion cymhleth a/neu anghenion gofal a chymorth, plant sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, y rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'r rhai sydd ar gyrion gofal. Bydd yn cynrychioli cyfarwyddwyr addysg eraill yn y rhanbarth a bydd disgwyl iddo gysylltu â strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol eraill, megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, er mwyn sicrhau rhagolwg cwbl wybodus. Bydd angen i gynrychiolwyr addysg gysylltu â grwpiau a rhwydweithiau perthnasol eraill i sicrhau eu bod yn gallu llywio a chefnogi'r broses o ddatblygu gwasanaethau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Rôl y Cadeirydd

86. Rôl benodol y Cadeirydd yw darparu'r cydbwysedd cywir o arweinyddiaeth, anogaeth a her er mwyn i'r Bwrdd gyflawni ei gyfrifoldeb cyfunol o sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i fwrw ati i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a chyflwyno cynlluniau rhanbarthol.

87. Mae agweddau allweddol ar rôl y Cadeirydd yn cynnwys:

- sicrhau bod prosesau llywodraethiant ac atebolrwydd priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu ar gyfer y Bwrdd (ac unrhyw is-grwpiau neu bwyllgorau y mae'r Bwrdd yn eu sefydlu)
- sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei holl swyddogaethau yn briodol, yn unol â'r hyn a nodir yn y Canllawiau Statudol
- sicrhau bod prosesau rheoli ac atebolrwydd priodol ar waith mewn perthynas ag unrhyw adnoddau sy'n cael eu rheoli drwy'r bartneriaeth ranbarthol, gan gynnwys cronfeydd cyfun rhanbarthol ac adnoddau Llywodraeth Cymru fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol
- adrodd i Swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru ar gynnydd y Bwrdd, a sicrhau bod adroddiad blynyddol y Bwrdd yn cael ei gyflwyno
- sicrhau bod yr holl aelodau'n cael eu galluogi a'u grymuso i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd.

88. Mae'r Cadeirydd yn gwneud gwaith arweinyddol hollbwysig yn creu diwylliant gwaith cytbwys a chynhwysol, oddi mewn i'r Bwrdd ei hun ac ar draws y bartneriaeth ehangach. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb penodol am sicrhau bod yr holl aelodau yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gyfrannu i'w llawn botensial, yn enwedig wrth gefnogi aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, aelodau o'r trydydd sector a darparwyr. Mae hyn yn

cynnwys sicrhau eu bod yn cael eu galluogi i wneud cyfraniad llawn a chyfartal at waith y Bwrdd.

89. Bydd angen i'r Cadeirydd gymryd gofal penodol i sicrhau bod yr aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn hyderus gyda'u cyfrifoldebau, a'u cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u cyfraniadau. Bydd angen cymorth hefyd ar aelodau sy'n cynrychioli darparwyr a'r trydydd sector i ddeall eu rôl. Mae'n arfer da i'r Cadeirydd gyfarfod yn unigol â phob aelod sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal o leiaf ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd a gofyn am adborth.

90. **Dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddarparu unrhyw hyfforddiant a chymorth gofynnol er mwyn i'r Cadeirydd gyflawni ei ddyletswyddau.

91. Mae rhai o'r camau ymarferol y gall Cadeiryddion eu cymryd i gefnogi aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal wedi'u nodi yn y Siarter a atodir i'r Canllawiau Statudol hyn.

## Recriwtio, cymorth a hyfforddiant

92. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn cyflwyno gofynion ar gyfer y Byrddau mewn perthynas â recriwtio a chynorthwyo aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion i wneud y canlynol:

- llunio disgrifiadau rôl ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd – h.y. ar gyfer pob un o'r 'categorïau' aelodaeth –
- rhoi trefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer recriwtio'r aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- cymryd camau ymarferol i gefnogi aelodau'r Bwrdd, a rhoi sylw arbennig i anghenion cymorth aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal.

## Recriwtio

93. **Rhaid** i'r Byrddau gyflwyno dulliau tryloyw a hygyrch o hysbysebu a recriwtio aelodau o'r Byrddau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal. **Dylent** geisio dod o hyd i ystod amrywiol o ddarpar ymgeiswyr sy'n adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

94. Mae'n bwysig cofio mai gwaith gwirfoddol yw hwn, ac wrth recriwtio aelodau newydd **rhaid** i'r Byrddau nodi disgwyliadau clir, ymarferol, a chyson ar gyfer pob rôl. **Rhaid** iddynt lunio disgrifiadau rôl clir ar gyfer pob swydd, gan gydymffurfio os oes modd ag unrhyw dempledi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

95. **Dylai** aelodau wasanaethu am o leiaf dair blynedd os ydynt yn darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal, er mwyn caniatáu iddynt ddatblygu yn y rôl.

96. **Dylai'r** rolau fod yn gyson drwy gydol y tymor ac ni fyddant yn cael eu newid yn ystod y tymor, neu o leiaf ni fyddant yn cael eu newid heb gytundeb y ddwy ochr.

**Dylid** pennu pwyntiau adolygu, er mwyn caniatáu hyblygrwydd wrth i rolau ddatblygu neu wrth i amgylchiadau newid.

97. **Dylai'r** disgrifiadau rôl nodi'r isafswm oriau disgwyliedig bob mis yn y rhanbarth. Mae'n bosibl y bydd angen oriau gwahanol o fewnbwn ar gyfer aelodau unigol yn dibynnu ar eu hanghenion.

98. **Dylai'r** disgrifiadau rôl ei gwneud yn glir bod cymryd rhan mewn cyfarfodydd eraill, gan gynnwys unrhyw is-grwpiau, yn dibynnu ar barodrwydd a gallu'r aelod, mewn trafodaeth â'r Cadeirydd.

## Cymorth

99. **Rhaid** i'r Byrddau gyflwyno strwythur cymorth priodol ar gyfer yr aelodau. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen gynefino, hyfforddiant a chymorth rhwng cyfarfodydd ac yn ystod cyfarfodydd.

100. **Rhaid** i'r Byrddau ystyried yn benodol anghenion cymorth aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'r aelodau hyn yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol, ac mae'n bosibl eu bod yn gorfod trefnu eu cyfranogiad o amgylch ymrwymiadau gofal sylweddol neu ymrwymiadau eraill. Gall mynychu cyfarfodydd Bwrdd, darllen papurau, a deall natur gymhleth yr ystod eang o faterion sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd fod yn hynod anodd a chymryd llawer o amser, yn enwedig i aelodau newydd.

101. Mae'r Byrddau yn gallu cymryd camau ymarferol i sicrhau bod pob aelod yn gallu cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd. Mae sicrhau bod yr holl bapurau'n cael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a'u hanfon allan mewn da bryd, yn ogystal â threfnu rhag-gyfarfodydd i edrych drwy'r papurau a materion mewn awyrgylch anffurfiol, yn helpu i feithrin hyder a hwyluso cyfranogiad llawn. Mae'n arfer da i'r Cadeirydd a'r arweinydd rhanbarthol fod yn bresennol yn y rhag-gyfarfod, yn ogystal â'r swyddog cymorth penodedig lle bo un yn bodoli.

102. Hefyd, **dylai'r** Byrddau roi cyfle i aelodau awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda mewn da bryd cyn y cyfarfodydd. **Dylai'r** Byrddau sicrhau bod amser ar gael mewn cyfarfodydd ar gyfer adborth gan yr aelodau ehangach, a **dylid** rhoi cyfle i aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal wneud cyflwyniadau yn rheolaidd, efallai ddwywaith y flwyddyn.

103. Gall mentora fod yn ffordd ddefnyddiol o ddarparu cymorth, yn enwedig i aelodau sy'n darparu llais ar gyfer dinasyddion. Gallai aelodau eraill fod yn ddefnyddiol iawn yn y cyswllt hwn, yn enwedig aelodau etholedig o awdurdodau lleol (cynghorwyr) neu unigolyn bwrdd iechyd. Gallai'r mentoriaid hyn feithrin cydberthynas â'r aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, a gweithredu fel cynghreiriaid yn y cyfarfodydd. Gallai mentora hefyd fod yn ddefnyddiol i aelodau trydydd sector, yn enwedig y rhai sy'n newydd – neu, yn wir, i unrhyw aelod newydd;

104. Gall yr aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gefnogi ei gilydd hefyd. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd gael o leiaf un o bob un, ac mae'n arfer da cael mwy nag un o bob un, fel y gallant

gynorthwyo ei gilydd a sicrhau cynrychiolaeth yn achos unrhyw absenoldebau na ellir eu hosgoi.

## Hyfforddiant

105. **Dylai'r** Byrddau sicrhau bod pob aelod yn derbyn pecyn sefydlu priodol, sy'n cynnwys dealltwriaeth o sut y mae'r bartneriaeth ranbarthol yn gweithio, swyddogaeth y Bwrdd, a'r mathau o drafodaethau strategol a gynhelir a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, gan ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau aelodau gwahanol.

106. Mae'n bwysig iawn bod yr holl aelodau yn deall ystyr cydgynhyrchu a'u bod wedi'u hyfforddi mewn ymarfer cydgynhyrchiol. Mae cyd-ddealltwriaeth o hawliau gofalwyr, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dulliau eraill sy'n seiliedig ar hawliau hefyd yn hollbwysig.

107. **Dylai'r** Bwrdd sicrhau bod pob un o'r aelodau yn derbyn hyfforddiant mewn gweithdrefnau a pholisïau perthnasol. **Dylai'r** Byrddau lunio prosesau teg a chadarn ar gyfer gwneud cwynion a datrys anghydfodau, gan sicrhau bod pob aelod yn eu deall ac yn gwybod sut i'w defnyddio.

108. Hefyd, bydd angen arweiniad ar aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ynglŷn â beth i'w wneud os oes aelodau eraill o'r cyhoedd yn rhannu eu hanes a'u profiadau â nhw, a chymorth i reoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr eraill sy'n eu hystyried fel eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd.

## Ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu

109. Mae Deddf 2014 yn gofyn am newid diwylliant o ran sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu, ac mae'n cynnwys pwyslais ar bartneriaeth a pherthynas fwy cyfartal rhwng ymarferwyr a dinasyddion, gan gynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys pwyslais newydd ar fodelau a dulliau arloesol sy'n cefnogi llesiant ac sy'n cael eu cydgynhyrchu yng ngwir ystyr y gair â dinasyddion.

110. Yn unol â'r ymrwymiad hwn i gydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth go iawn, **rhaid** i'r cyrff partneriaeth a'r Byrddau hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ystod pob cam o'r broses gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn cynnwys pob cam o'r cylch comisiynu strategol, gan gynnwys asesu anghenion, cynllunio a darparu, a monitro a gwerthuso.

111. Bydd modd cynnwys pobl mewn sawl ffordd wahanol, ond mae'r cyfan yn deillio o ddull sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion cydgynhyrchu.

112. Mae cydgynhyrchu'n digwydd pan fydd cyrff statudol yn gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad bywyd er mwyn datblygu atebion i heriau sy'n codi mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Gellir diffinio cydgynhyrchu fel dull seiliedig ar asedau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n galluogi pobl sy'n darparu gwasanaethau a phobl sy'n derbyn gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb, ac i gydweithio mewn perthynas

gyfartal, ddwyochrog a gofalgar. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael cymorth pan fydd ei angen arnynt, ac i gyfrannu at newid cymdeithasol.(7)

113. Mae cydgynhyrchu'n feddylfryd ac yn ffordd o weithio sy'n seiliedig ar y pum gwerth canlynol:

- gwerthfawrogi pobl a datblygu eu cryfderau
- datblygu rhwydweithiau sy'n gweithredu ar draws ffiniau sefydliadol a ffiniau eraill
- canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl dan sylw
- meithrin perthynas o ymddiriedaeth a rhannu pŵer
- galluogi pobl i fod yn wneuthurwyr newid.

114. Mae hyn yn golygu mabwysiadu dulliau sy'n gwneud y canlynol:

- cydnabod pobl fel asedau, ac fel unigolion sy'n gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynllunio a darparu gwasanaethau
- cefnogi a grymuso pobl i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau
- grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain, a chyfrannu ato
- sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn sicrhau canlyniadau personol ar lefel unigolyn a lefel gwasanaeth
- cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau.

115. **Dylai'r** Byrddau roi sylw i'r gwerthoedd a'r dulliau cydgynhyrchu hyn yn eu gwaith, a sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cynnwys dinasyddion yng ngwaith y bartneriaeth. Wrth wneud hyn, **rhaid** i'r cyrff partneriaeth a'r Byrddau fabwysiadu dull cydgynhyrchu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cefnogi cynhwysiant. Mae cydgynhyrchu yn golygu ystyried pob person fel ased a phartner cyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a sicrhau bod pobl o bob oed, cefndir a gallu yn cael eu cynnwys a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd dulliau gwahanol yn addas ar gyfer grwpiau gwahanol, a bydd angen dod o hyd i ffyrdd arloesol a chreadigol o sicrhau bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael eu cynnwys. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau i annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, yn unol ag egwyddorion Mwy na Geiriau, fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgorffori'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

116. **Rhaid** i'r Byrddau gynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiadau blynyddol am sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn ei waith, sut mae

**7** Lluniwyd y diffiniad a'r gwerthoedd a amlinellir yma gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru https://copronet.wales/cy/

wedi hyrwyddo cydgynhyrchu, a'r gwahaniaeth mae'r gweithgareddau hyn wedi'i wneud i ganlyniadau llesiant dinasyddion.

117. Mae gan y Byrddau rôl strategol hanfodol i greu'r amgylchedd cywir a sbarduno arferion cydgynhyrchu da ar bob lefel o'r bartneriaeth ranbarthol. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol er mwyn creu amgylchedd cadarnhaol lle mae cydgynhyrchu yn gallu ffynnu. Bydd disgwyl i aelodau'r bwrdd weithredu fel hyrwyddwyr cydgynhyrchu oddi mewn i'w sefydliadau neu sectorau.

118. **Rhaid** i'r Byrddau greu cyfleoedd i ddinasyddion ddylanwadu ar eu gwaith a chyfrannu ato, a helpu'r cyrff partneriaeth a phartneriaid eraill i gydgynhyrchu gwasanaethau gofal a chymorth integredig sy'n diwallu angen lleol ar draws eu rhanbarth. Bydd angen dulliau amrywiol i gyrraedd ac ymgysylltu ag ystod mor amrywiol â phosibl o bobl. Panelau rhanbarthol yw un ffordd o ddwyn ynghyd gomisiynwyr a darparwyr gofal gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr er mwyn rhannu syniadau a phryderon, archwilio cyfleoedd a hyrwyddo arferion da.

## Ymgysylltu â'r boblogaeth leol

119. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl wrth lunio asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, a chynlluniau ardal ar y cyd.

120. Amlinellir y gofynion mewn perthynas ag asesiadau o anghenion y boblogaeth yn adran 14 o Ddeddf 2014 ac yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol). Wrth baratoi eu hasesiadau, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda'r byrddau iechyd i ymgysylltu â'u dinasyddion (gan gynnwys oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr, a rhieni plant ag anghenion gofal a chymorth) wrth lunio adroddiad asesiad o'r boblogaeth, creu gweithdrefn ar gyfer yr ymgysylltu hwn, a chynnwys pobl wrth ystyried ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn.

121. Wrth gynnal eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth, rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd bennu i ba raddau y mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn Gymraeg, a'r ystod a'r lefel o wasanaethau y bydd angen iddynt eu darparu er mwyn diwallu'r angen hwnnw. Nod fframwaith strategol y Gymraeg, Mwy na Geiriau yw gwella darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen i siaradwyr Cymraeg, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

122. Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys ystod eang o bobl wrth baratoi'r adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad rhanbarthol o dan adran 144B o Ddeddf 2014, ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad. Dylent fod yn rhan o'r broses o asesu digonolrwydd gofal a chymorth, sy'n gysylltiedig ag ystod a lefel y gwasanaethau a amlinellir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, ac (fel y bo'n briodol) yn yr asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

123. Mae'r Canllawiau Statudol ar Gynlluniau Ardal (Llywodraeth Cymru, 2017) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth baratoi'r

cynlluniau ardal ar y cyd y mae'n **rhaid** i'r cyrff partneriaeth eu llunio o dan adran 14A o Ddeddf 2014.

124. Bydd y Byrddau yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan yr asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad i wneud argymhellion seiliedig ar wybodaeth am y dulliau mwyaf priodol o ddatblygu'r farchnad a chaffael yn eu rhanbarth. Bydd cydgynhyrchu yn sicrhau mwy o bwyslais ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl, yn ogystal â hyrwyddo'r cydbwysedd cywir o effeithlonrwydd adnoddau a budd cymunedol. Hefyd, bydd yn sicrhau pwyslais cliriach ar y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd eisoes ar gael yn y gymuned, yn unol ag adran 15 o Ddeddf 2014.

# 5. Llywodraethiant a Chraffu

125. Wrth symud tuag at drefn o gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, gan gynnwys cyllidebau ac adnoddau cyfun, mae'n hanfodol sicrhau llywodraethiant ac atebolrwydd effeithiol. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth sicrhau eu bod yn fodlon bod y Bwrdd wedi sefydlu trefniadau goruchwylio a llywodraethiant effeithiol ar draws y bartneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i alluogi hyn.

126. O fewn cylch gorchwyl y Byrddau, **rhaid** i'r cyrff partneriaeth nodi'n glir a yw eu cynrychiolwyr wedi dirprwyo penderfyniadau o'u bwrdd neu gabinet priodol, lle bo hynny'n berthnasol.

## Strwythurau partneriaeth

127. Bydd y cyrff partneriaeth yn pennu'r strwythurau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau cynllunio strategol effeithiol a darparu gwasanaethau integredig. Bydd angen iddynt ystyried pa strwythurau a fydd yn eu cynorthwyo orau i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, gan gynnwys gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd. Fel canllaw, **dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod y strwythurau a roddant ar waith yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y Bwrdd yn gyfrwng cydweithredu effeithiol sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyrff partneriaeth i gyflawni eu dyletswydd i gydweithredu
- hwyluso ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- caniatáu gwneud penderfyniadau gweithredol yn gynt yn ôl yr angen, heb danseilio rôl strategol y Bwrdd
- gwneud cysylltiadau clir â grwpiau cynllunio'r clwstwr cyfan.

128. Cydnabyddir y bydd byrddau partneriaeth, wrth geisio cyflawni amcanion a chynlluniau strategol y Bwrdd, yn ystyried trefniadau rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chyflawni gweithredol mwy ystwyth. Fodd bynnag, **rhaid** i'r trefniadau hyn adlewyrchu aelodaeth ehangach y Bwrdd o hyd (fel isafswm, cynrychiolaeth awdurdod lleol, bwrdd iechyd a'r trydydd sector), ac ni chaniateir iddynt danseilio cyfrifoldeb cyffredinol gwneud penderfyniadau strategol y Bwrdd.

129. Mater i'r Byrddau fydd penderfynu a oes angen iddynt sefydlu is-grwpiau thematig i gefnogi cyflwyno cynlluniau a rhaglenni gyda llinellau atebolrwydd clir i'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Byddai angen i unrhyw drefniadau o'r fath adlewyrchu strwythurau cynllunio aml-asiantaeth clir ac ar wahân sy'n canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc yn y rhanbarth, yn fwy cyffredinol o ran cymorth cynnar a mesurau atal, ond yn benodol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc:


- sy'n anabl a/neu'n sâl
- sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal

- sydd angen gofal a chymorth
- sy'n wynebu risg o fod yn blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal
- sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol
- sy'n ofalwyr ifanc neu'n ofalwyr sy'n oedolion ifanc.

130. Hefyd byddai Llywodraeth Cymru yn annog y Byrddau i ystyried a oes angen sefydlu is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
    - cynllunio strategol a chyfalaf
    - datrysiadau dan arweiniad tai a llety
    - hyrwyddo llais gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi cynllunio, comisiynu a darpariaeth rhanbarthol.

131. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydweithredu i sefydlu fforymau rhanbarthol sy'n dwyn ynghyd fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a darparwyr y trydydd sector, fel rhan o'u dyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014 i hyrwyddo'r modelau a'r dulliau cyflawni hyn. Mae rôl y fforymau hyn wedi'i hamlinellu ym Mhennod 4 o'r Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol). **Dylai'r** Byrddau sefydlu cysylltiadau â'r fforymau hyn a sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at eu gwaith.

132. Mae Ffigur 4 yn darparu canllaw ar gyfer datblygu strwythurau rhanbarthol effeithiol.




**Ffigur 4 Model o strwythur partneriaeth ranbarthol**

133. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth ddatblygu cytundebau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw drefniadau partneriaeth sy'n cynnwys dirprwyo'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau.

## Cysylltiadau â phartneriaethau eraill

134. **Dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar lefel strategol i'r Bwrdd ymgysylltu â byrddau a sefydliadau eraill yn ôl yr angen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl
- Partneriaethau Iechyd Meddwl
- Byrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Byrddau Cynllunio Ardal mewn perthynas â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

135. Bydd yn briodol weithiau i Fyrddau wahodd sefydliadau neu unigolion i fynychu cyfarfodydd Bwrdd. Bydd angen meithrin ymgysylltiad drwy rwydweithiau neu fforymau presennol (gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector), neu drwy ddatblygu rhwydweithiau neu fforymau newydd.

## Darparu adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth

136. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o Ddeddf 2014. **Rhaid** iddynt nodi'r galw am adnoddau yn ddigonol a nodi i ba raddau y mae'r gofynion hynny wedi'u bodloni.

137. **Rhaid** i'r Bwrdd geisio sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth. Hefyd, **dylai'r** Bwrdd ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen y gallai fod eu hangen i integreiddio gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau i unigolion a/neu ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa drefniadau a allai weithio orau ar lefel ranbarthol (a pha drefniadau y gellid eu cyflawni'n fwy effeithiol naill ai ar lefel leol, isranbarthol neu hyd yn oed genedlaethol).

138. Fel gofyniad sylfaenol, **dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod trefniadau seilwaith ar waith i gefnogi gwaith y partneriaethau rhanbarthol a'r Byrddau. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau ac adnoddau yn ymwneud â'r canlynol:

- galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth a'r Canllawiau Statudol hyn
- galluogi'r cyrff partneriaeth i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag adroddiadau asesiadau o anghenion y boblogaeth, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal ar y cyd
- rheoli perfformiad a gwybodaeth busnes integredig
- cyfathrebu ac ymgysylltu – gan gynnwys cymorth pwrpasol i sicrhau ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal â gwaith y Bwrdd
- hwyluso'r gwaith o gydgomisiynu neu gydgynllunio gwasanaethau
- datblygu a goruchwylio cyllideb gyfun
- cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael

eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, a hwyluso mecanweithiau a fforymau ymgysylltu i gefnogi'r modelau a'r dulliau hyn
- rheoli cyllid
- datblygu gweithlu integredig i ategu modelau gofal integredig
- cynllunio cyfalaf strategol.

## Comisiynu rhanbarthol a'r defnydd o gronfeydd cyfun

139. Er nad yw cronfeydd cyfun yn nod terfynol ynddynt eu hunain, maent yn gallu bod yn ddull defnyddiol o gynorthwyo gyda chomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar y cyd. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth roi sylw dyladwy i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer wrth ymgymryd â gweithgaredd cydgomisiynu.

140. O dan y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, **rhaid** i'r Byrddau sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol.

141. Fel gofyniad sylfaenol, mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn darparu bod yn **rhaid** i'r cyrff partneriaeth sefydlu a chynnal:

- trefniadau cydgomisiynu gan gynnwys cronfa gyfun neu gronfeydd mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn
- cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd.

142. Mewn perthynas â chomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn, **dylai'r** cyrff partneriaeth hefyd wneud y canlynol:

- cynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddiad o'r farchnad gan gynnwys anghenion y rhai sy'n ariannu eu hunain
- cytuno ar ddatganiad o sefyllfa'r farchnad ranbarthol integredig a strategaeth gomisiynu ranbarthol briodol
- cytuno ar gontract a manyleb gyffredin
- cytuno ar feini prawf a phrosesau cyffredin ar gyfer monitro contractau sy'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau
- datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr
- datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd
- mabwysiadu defnydd tryloyw o adnoddau.

143. Bydd y datganiad o sefyllfa'r farchnad ranbarthol a'r strategaeth gomisiynu yn nodi'r canlyniadau gofynnol ar gyfer cartrefi gofal, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen. Hefyd, dylid cytuno ar y dulliau comisiynu – er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau angen contract bloc, gwasanaethau gofal canolraddol cam-i-fyny, cam-i-lawr neu ofal seibiant.

144. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth sicrhau cysondeb rhwng y gyllideb gyfun a'r gwariant cyffredinol a nodwyd, ynghyd ag ymrwymiadau ariannol y ddwy asiantaeth/pob asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. **Dylai'r** trefniadau hyn fod yn destun cytundeb ysgrifenedig.

145. Y diben yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio er mwyn manteisio'n llawn ar eu dylanwad i lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn

cynnwys sicrhau bod digon o gapasiti ac ystod briodol o wasanaethau o ansawdd da ar gael i ymateb i anghenion pobl yn eu rhanbarth. **Dylai** hyn gwmpasu lleoliadau awdurdodau lleol a lleoliadau wedi'u hariannu gan y GIG (gofal nyrsio wedi'i ariannu a gofal iechyd parhaus y GIG). Hefyd, **dylai** gwmpasu lleoliadau dros dro byrdymor i hwyluso trosglwyddiadau gofal o'r ysbyty a dewis o lety, gwelyau gofal canolraddol (cam-i-fyny/cam-i-lawr), lleoliadau hirdymor, gofal seibiant a gwasanaethau eraill y mae'r cyrff partneriaeth yn dymuno eu comisiynu gan gartrefi gofal. Wrth ddatblygu eu dull integredig o gomisiynu, dylai'r cyrff partneriaeth ystyried anghenion pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

146. Fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio a chomisiynu ehangach, **dylai'r** cyrff partneriaeth ystyried manteision cydgomisiynu a chyfuno cyllid mewn meysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer integreiddio, a **rhaid** iddynt ystyried manteision sefydlu a chynnal cronfa gyfun wrth weithredu ar y cyd mewn ymateb i asesiad o anghenion y boblogaeth.

147. **Dylai'r** cyrff partneriaeth fabwysiadu'r un dull gweithredu mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth cydgomisiynu eraill megis:

- gwasanaethau cymunedol ataliol ac ymyrraeth gynnar
- darpariaeth gofal cartref
- gwasanaethau ailalluogi
- pobl sydd angen gofal iechyd parhaus yn y cartref neu mor agos i'r cartref â phosibl
- lleoliadau therapiwtig a diogel i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- pobl ag anabledd dysgu sy'n byw mewn sefyllfa byw â chymorth
- cymorth i ofalwyr.

148. Fel isafswm, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld datganiadau o sefyllfa'r farchnad ranbarthol a strategaethau comisiynu rhanbarthol ar gyfer y gwasanaethau allweddol hyn.

149. Gellid ystyried cyfuno adnoddau i gefnogi prosesau cydgomisiynu ar sawl lefel. Bydd y Byrddau yn helpu'r cyrff partneriaeth i benderfynu ar y lefel fwyaf priodol i gyfuno adnoddau er mwyn sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf. Y lefelau hyn yw:

- rhanbarthol
- isranbarthol
- grŵp clwstwr cyfan
- clwstwr
- unigolyn.

150. Ceir gofyniad penodol ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyrannwyd cyllid i awdurdodau lleol fel rhan o gytundeb lleol i sicrhau bod modd sefydlu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a thalu costau iechyd a gofal cymdeithasol y gwasanaeth. Bydd hyn yn creu sylfaen i bartneriaeth ffurfiol gyda chronfa gyfun.

151. **Dylai'r** cyrff partneriaeth hefyd ystyried unrhyw gyllid y maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru, megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, fel math o gyllideb

gyfun. Er na fydd angen cytundeb partneriaeth ffurfiol ar gyfer y cyllid hwn, **dylid** cael cytundeb ysgrifenedig ar gyfer ymrwymo i unrhyw wariant o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, neu ffrydiau ariannu tebyg.

## Llywodraethiant yn ymwneud â chronfeydd cyfun

152. Bydd gan y cyrff partneriaeth gyfrifoldeb statudol o hyd ar gyfer eu swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni o dan yr holl drefniadau cronfeydd cyfun. Mae hyn yn golygu bod yn **rhaid** i'r cytundeb partneriaeth gynnwys y trefniadau llywodraethiant, gan gynnwys atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a sut i reoli trefniadau'r cyllidebau cyfun. **Dylid** ystyried yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

- rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd
- tegwch
- tryloywder
- cysondeb
- gwerth am arian.

153. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth roi trefniadau monitro cynhwysfawr ar waith i roi sicrwydd bod eu nodau a'u hamcanion cyffredin yn cael eu cyflawni. Hefyd, **dylid** sicrhau bod mecanweithiau clir ar waith i ganiatáu rhannu risg rhwng cyrff partneriaeth cyfranogol ar sail egwyddorion un gwasanaeth cyhoeddus i Gymru ac un pwrs y wlad.

154. Gall y gyllideb gyfun gael ei chynnal a'i rheoli gan gorff partneriaeth, neu ei chynnal gan gorff partneriaeth a'i rheoli ar ei ran gan sefydliad arall sydd â chontract i wneud hynny. Bydd y sawl sy'n cynnal y gyllideb gyfun yn darparu systemau gweinyddol ariannol ar ran y cyrff partneriaeth, ond ni fydd yn ysgwyddo unrhyw atebolrwydd ychwanegol, ac eithrio unrhyw atebolrwydd sy'n berthnasol i reoli'r gyllideb. Hefyd, bydd unrhyw archwilydd allanol yn disgwyl y bydd yr un lefel o reolaeth fewnol yn berthnasol i'r cronfeydd cyfun ag sy'n berthnasol i rannau eraill y corff partneriaeth sy'n eu cynnal. Yn ogystal, bydd gan yr archwilydd hawl mynediad llawn o hyd i'r cofnodion a'r systemau ariannol, ac yn disgwyl y bydd trywydd archwilio clir ar gael ar gyfer trafodion ariannol o bob math.

155. Un o fanteision y gronfa gyfun yw'r ffaith y bydd staff iechyd a staff awdurdod lleol a nodir yn y cytundeb yn gallu cael mynediad at yr adnoddau yn y gronfa a gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio'r adnoddau yn y gronfa, yn unol â'r broses y cytunir arni yn lleol rhwng yr aelodau staff hynny a rheolwr y gronfa gyfun. Bydd angen proses y cytunir arni i awdurdodi staff a enwir i wneud hyn. Nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n nodi na all staff iechyd ddefnyddio cronfeydd cyfun i gyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y cyrff partneriaeth sy'n rhan o'r trefniant chwaith.

156. Bydd y gofynion archwilio a chyfrifyddu yn amrywio, yn dibynnu ar natur yr hyblygrwydd sydd i'w ddefnyddio. Bydd yn bwysig ystyried sut i gynnwys cynrychiolwyr archwilio allanol lleol yn y gwaith o ychwanegu gwerth at y

cytundeb arfaethedig, gan gynnwys gwneud sylwadau ar oblygiadau archwilio a chyfrifyddu cytundeb drafft lleol.

157. Bydd yn bwysig i'r cyrff partneriaeth nodi pa swyddogaethau neu wasanaethau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd integreiddio mewn trefniant cydgomisiynu, naill ai drwy daliad uniongyrchol gan un corff partneriaeth i gorff partneriaeth arall, drwy gyfrannu at gronfa gyfun, neu drwy un corff partneriaeth yn darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill at ddibenion trefniadau partneriaeth neu mewn perthynas â nhw.

158. **Dylai** cyrff partneriaeth ystyried y pecyn cymorth ar gyfer cronfeydd cyfun a luniwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2019: (**8**)

## Cytundebau Ysgrifenedig

159. **Dylai'r** cyrff partneriaeth ddatblygu cytundebau ysgrifenedig yn ymwneud ag unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol sy'n cynnwys dirprwyo arfer swyddogaethau. Hefyd, **dylent** lofnodi cytundeb sy'n nodi'r telerau allweddol yn unol â'r gofynion statudol. **Dylai** gweithgarwch ategol fynd rhagddo ochr yn ochr â drafftio cytundeb i sicrhau bod modd ei weithredu o ddydd i ddydd drwy fframwaith corfforaethol gwasanaeth a chyllid y corff perthnasol. Hefyd, **dylai** cyrff partneriaeth nodi cwmpas unrhyw drefniadau llywodraethiant yn glir.

160. Gall y trefniadau partneriaeth gynnwys cronfeydd cyfun a dirprwyo arfer swyddogaethau – h.y. arwain gwaith comisiynu a darpariaeth integredig. Mewn amgylchiadau o'r fath, pan mae partneriaethau'n cael eu creu er mwyn symleiddio darpariaeth gwasanaethau yn bennaf, mae'n hanfodol bod telerau'r bartneriaeth yn cael eu nodi'n glir mewn cytundeb ysgrifenedig. Hefyd, gall fod yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng trefniadau partneriaeth ffurfiol a threfniadau llai ffurfiol.

161. Mae trefniadau partneriaeth ffurfiol wedi'u defnyddio i ddisgrifio trefniadau ffurfiol sy'n cynnwys dirprwyo arfer swyddogaethau o un o'r cyrff partneriaeth i un arall. Hefyd, gellir defnyddio trefniadau ffurfiol i ddisgrifio'r defnydd o gronfeydd cyfun fel y rhai o dan Ddeddf Plant 2004. Serch hynny, rhaid nodi nad oes unrhyw hyblygrwydd i ddirprwyo'r broses o gyflawni swyddogaethau rhwng partneriaid perthnasol mewn trefniadau a wneir o dan y Ddeddf hon. Hyd yn oed os yw'r broses o wneud trefniadau partneriaeth megis dechrau, neu os oes trefniadau mwy anffurfiol ar waith, nid oes rheswm pam na ellir cael cytundeb ysgrifenedig i'w hategu.

162. Mae'r amrywiaeth o swyddogaethau y gellir eu cynnwys mewn trefniant partneriaeth wedi'u nodi yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth. Fodd bynnag, ceir rhai eithriadau. Rhestrir swyddogaethau awdurdod lleol sydd wedi'u heithrio yn Nhabl 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) ac maent yn cynnwys, er enghraifft, swyddogaethau o dan Ran 5 o Ddeddf 2014 (mewn perthynas â chodi ffioedd) a swyddogaethau o dan adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (mewn perthynas â chymeradwyo gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol). Ym maes iechyd, mae'r eithriadau yn cynnwys

(**8**) Dolen at y nodiadau cyngor ar integreiddio a chyllidebau cyfun ar wefan ADSSC

llawfeddygaeth, radiotherapi, endosgopïau, terfynu beichiogrwydd, triniaethau mewnwthiol eraill a gwasanaethau ambiwlans brys.

163. Ar ôl cytuno ar yr hyn sydd ei angen, **dylai** cyrff partneriaeth benderfynu sut i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Gall hyn olygu newid sut y mae gwasanaethau yn cael eu darparu a chynllunio modelau integredig sengl newydd i ddarparu gwasanaethau. Gall gynnwys y canlynol hefyd:

**Amcanion gwella gwasanaethau**

- Er enghraifft, dulliau effeithiol y gellir eu gweithredu a dangos tystiolaeth ohonynt er mwyn cadarnhau cysylltiadau â gwasanaethau eraill, ac amcanion sy'n sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau unigol yn cael eu diwallu yn ystod y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau.

**Amcanion i ddatblygu a gwella ansawdd a safonau gwasanaethau**

- Er enghraifft, lle gellid cysoni polisïau clinigol ac ymarfer perthnasol y cyrff partneriaeth. Gall hyn arwain at gynllunio proses newydd ar gyfer asesu a darparu gofal.

**Amcanion adnoddau dynol**

- Er enghraifft, i fynd i'r afael â'r angen i ddatblygu timau, ac amcanion sy'n cefnogi prosesau recriwtio a chadw staff, hyfforddi staff ac ati.

**Amcanion busnes**

- Er enghraifft, targedau penodol yn ymwneud â gweithgarwch, cyllid, peryglon a nodir neu newid yn y dyfodol.

## Craffu / sicrwydd

164. Gall craffu effeithiol wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â dyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn gyson ag anghenion y gymuned leol. Mae gan graffu rôl bwysig i'w chwarae hefyd wrth gyfrannu at ddatblygu polisi, cynnal adolygiadau penodol a monitro perfformiad.

165. Bydd craffu effeithiol yn ymwneud â nifer o agweddau:

- trefniadau craffu mewnol cyrff partneriaeth mewn perthynas â chyflawni eu dyletswydd eu hunain i gydweithio

  Mae disgwyliad clir y bydd y cyrff partneriaeth yn sicrhau bod eu prosesau craffu mewnol eu hunain yn ystyried i ba raddau y maent yn cyflawni eu dyletswydd eu hunain i gydweithredu. Disgwylir i'r canfyddiadau hyn ac unrhyw gamau dilynol lywio eu proses gynllunio a gwella eu hunain.

- Dylai'r cyrff partneriaeth graffu ar y Bwrdd fel cyfrwng effeithiol i'w cefnogi wrth iddynt arfer eu dyletswydd i gydweithredu

  Bydd y cyrff partneriaeth am sicrhau bod y Bwrdd yn darparu mecanwaith effeithiol i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswydd i gydweithredu. **Dylai'r** cyrff partneriaeth ystyried datblygu trefniadau craffu rhanbarthol i ddarparu proses graffu symlach ar gyfer gweithio rhanbarthol.

- gwaith craffu'r Byrddau ar eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd cyfun

**Dylai** trefniadau'r Byrddau gynnwys craffu effeithiol ar y gwaith sydd wedi ei ddirprwyo fel rhan o drefniadau'r bartneriaeth. Wrth ymgymryd â gwaith craffu, byddant yn dymuno gwneud y canlynol:

  - egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch-swyddogion wrth gyfrannu at waith craffu
  - datblygu'r flaenraglen graffu er mwyn
  - darparu sail resymegol ar gyfer dewis pynciau
  - canolbwyntio mwy ar ganlyniadau
  - sicrhau bod y dull craffu yn fwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol
  - sicrhau cysondeb rhwng unrhyw raglenni craffu a'r trefniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso, a gwella
  - mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru (**9**) i wella'r ffordd y mae craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

## Hunanasesu

166. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud y canlynol:

- cwblhau hunanasesiad bob dwy flynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol
- cynnal adolygiad blynyddol o'r hunanasesiad a'i ddiweddaru yn ôl yr angen
- cyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r hunanasesiad a'r adolygiad blynyddol yn eu hadroddiadau blynyddol.

167. Er mwyn cynorthwyo'r Byrddau i graffu ar eu heffeithiolrwydd eu hunain, **rhaid** iddynt gwblhau hunanasesiad dwy flynedd o'u galluoedd a'u cyflawniadau, a chynnal adolygiad yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y dadansoddiad yn parhau i fod yn ddilys. Bydd yr hunanasesiad hwn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol arweinyddiaeth a llywodraethiant, yn ogystal â gwerthoedd, ymddiriedaeth a diben.

168. Bydd disgwyl i'r Byrddau gydymffurfio ag adnodd asesu partneriaeth sydd wedi'i ddatblygu'n genedlaethol ac sy'n cynnwys cyfres gyson o egwyddorion, canllawiau, a dull gweithredu. Argymhellir trefnu hwyluso annibynnol i gefnogi'r broses hunanasesu, gan ddefnyddio'r offeryn arolygu y cytunwyd arno yn genedlaethol i goladu a helpu dehongli canfyddiadau.

169. Bydd hunanasesiadau yn nodi meysydd o arferion da a meysydd i'w gwella ar gyfer y Byrddau, gan lywio unrhyw flaenoriaethau cynllunio y mae angen i'r Bwrdd eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â nhw. **Rhaid** cyhoeddi crynodeb

(**9**) https://wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu/

o ganfyddiadau pob hunanasesiad ac unrhyw gamau arfaethedig gydag adroddiad blynyddol y Bwrdd.

170. Bydd y dystiolaeth o'r hunanasesiadau yn cael ei gwella drwy driongli mwy o dystiolaeth ar effaith a chanlyniadau, gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ymwneud ag effeithiolrwydd arfer swyddogaethau perthnasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd sy'n cael eu harfer drwy'r trefniadau partneriaeth.

# 6. Cwmpas a swyddogaethau partneriaethau rhanbarthol

171. Prif bwyslais y trefniadau partneriaeth rhanbarthol yw helpu i wella darpariaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y gymuned gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn cynnig iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sy'n sicrhau canlyniadau gwell a system effeithlon.

## Grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth

172. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â grwpiau poblogaeth yn unol â'r asesiadau rhanbarthol o anghenion n boblogaeth:

- pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- pobl sydd ag anableddau dysgu
- plant ag anghenion cymhleth
- gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- pobl sy'n niwrowahanol
- pobl sydd ag iechyd meddwl gwael neu anghenion cymorth emosiynol.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

173. Wrth asesu anghenion y boblogaeth a chynllunio, **rhaid** i'r cyrff partneriaeth fod yn ymwybodol o anghenion iechyd, gofal a llesiant penodol y canlynol hefyd:

- pobl ag amhariad synhwyraidd
- menywod sy'n dioddef trais, a'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a / neu drais rhywiol (VAWDASV)
- y rhai sy'n profi digartrefedd
- y rhai sydd yn yr ystad ddiogeledd.

174. **Dylai'r** cyrff partneriaeth ystyried cyfleoedd i ymestyn y ddarpariaeth o wasanaethau integredig y tu hwnt i'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y canllawiau hyn, yn ogystal â sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol i'r asesiad o'r boblogaeth ar y cyd.

175. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth sicrhau dull integredig o ddatblygu gwasanaethau, gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar. Mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, **dylai'r** cyrff partneriaeth ganolbwyntio ar y canlynol:

- darparu help a chymorth cynnar i atal datblygiad anghenion mwy heriol
- darparu cymorth i deuluoedd er mwyn atal yr angen i blant dderbyn gofal
- lle mae plentyn yn derbyn gofal, darparu modelau gofal a chymorth sy'n lleihau'r angen ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol
- hyrwyddo dulliau gweithredu sy'n atal plant rhag mynd i'r carchar.

176. Hefyd, **dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar hybu iechyd a llesiant emosiynol da er mwyn atal iechyd meddwl gwael.

177. Mae angen i'r cyrff partneriaeth ategu datblygiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (gweler Pennod 9 o'r Canllawiau Statudol hyn) a datblygu dull integredig o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys:

- plant sy'n anabl a/neu yn byw gyda salwch
- plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- plant sydd angen gofal a chymorth
- plant sy'n wynebu risg o fod yn blant sy'n derbyn gofal
- plant sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

178. Mae hyn yn cynnwys cefnogi trefniadau pontio effeithiol ac integredig rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

## Blaenoriaethau integreiddio gwasanaethau

179. Yn unol ag uchelgeisiau a nodir yn *Cymru Iachach* **dylai'r** cyrff partneriaeth ganolbwyntio ar ddatblygu eu hymatebion rhanbarthol a lleol i'r glasbrint cenedlaethol ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru. **Dylent** ganolbwyntio ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth cymunedol lle mae modd cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer dinasyddion a grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth, a lle mae dull di-dor a/neu integredig o ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn gallu cael yr effaith fwyaf. **Rhaid** i'r ymatebion rhanbarthol a lleol i'r system integredig gynnwys:

- gwasanaethau ataliol yn y gymuned
- gwasanaethau iechyd a gofal yn y gymuned
- gwasanaethau sy'n hybu ac yn hwyluso iechyd a llesiant emosiynol da
- gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd i aros yn ddiogel gyda'i gilydd
- gwasanaethau sy'n cefnogi canlyniadau iechyd a llesiant gwell i blant sydd â phrofiad o ofal
- gwasanaethau sy'n gallu helpu i ryddhau cleifion yn effeithiol o'r ysbyty
- atebion sy'n seiliedig ar dai a llety ar gyfer hybu iechyd a llesiant gwell.

## Gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau

180. Mae gan y cyrff partneriaeth drefniadau partneriaeth ar waith eisoes mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ar gyfer pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, mae byrddau partneriaeth cenedlaethol wedi'u sefydlu ar gyfer y ddau wasanaeth hyn. **Dylai'r** byrddau partneriaeth ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen sydd eu hangen o bosibl i integreiddio gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer unigolion a/neu ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol. **Dylai** hyn hefyd ystyried

pa drefniadau na fyddant yn gweithio'n effeithiol o bosibl ar lefel ranbarthol, ond a allai fod yn fwy effeithiol ar lefel genedlaethol.

## Eiriolaeth a gwybodaeth, cyngor a chymorth

181. Mae'r Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (**10**) yn nodi'r gofynion ar gyfer mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth. Wrth ymateb i'r asesiad anghenion poblogaeth, **rhaid** i'r cyrff partneriaeth sicrhau eu bod yn gallu ymateb i ofynion unigolion y gallai fod angen eiriolaeth arnynt i'w galluogi i ymgysylltu a chymryd rhan pan fydd awdurdodau lleol yn cyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â hwy. Mae'r Cod Ymarfer Rhan 10 (Eirioli) yn rhoi rhagor o gyngor am y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar unigolion a'u hanghenion am gymorth penodol.

182. Mae Pennod 6 o Ran 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) (**11**) yn amlinellu'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. O dan y Cod hwnnw, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor, a chymorth yn cael eu cynnig mewn ffordd hygyrch, mewn sawl fformat, ac yn y farchnad, mewn ffordd sy'n addas i anghenion y bobl sy'n byw yn eu rhanbarth. **Dylai'r** cyrff partneriaeth arwain y gwaith o gytuno, gyda phartneriaid rhanbarthol eraill, ar ba gydrannau gwasanaethau y dylid eu datblygu ar lefel genedlaethol, ranbarthol, a lleol.

183. Os oes gan y cyrff partneriaeth ddiddordeb cyffredin mewn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth neu wybodaeth, cyngor a chymorth, **dylent** gydweithio i ystyried a fydd modelau busnes amgen megis mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, neu fodelau darpariaeth sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr neu'r trydydd sector yn diwallu anghenion llesiant eu poblogaeth leol. Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) yn cynnwys rhagor o gyngor ar gyfer awdurdodau lleol ar hyrwyddo'r modelau a'r dulliau hyn yn unol â'u dyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014.

## Fframwaith cynllunio integredig

184. Mae trefniadau partneriaeth rhanbarthol wedi esblygu dros amser, ac mae'r canllawiau statudol hyn yn adlewyrchu aeddfedrwydd trefniadau cynllunio sydd eu hangen i sicrhau bod y Byrddau yn gallu cael y cyrhaeddiad ehangaf a'r effaith fwyaf o safbwynt galluogi newid ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.


185. Mae Ffigur 5 (isod) yn dangos y trefniadau cynllunio integredig disgwyliedig a sut y maent yn cysylltu â strwythurau cynllunio ehangach ond cysylltiedig eraill.

(**10**) Dolen at y cod ymarfer ar wasanaethau eirioli ar wefan llyw.cymru

(**11**) Dolen at y cod ymarfer ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ar wefan llyw.cymru

Mae sylfeini allweddol y fframwaith cynllunio integredig hwn yn cynnwys y canlynol:

- asesiad 5 mlynedd o anghenion y boblogaeth
- adroddiad 5 mlynedd ar sefydlogrwydd y farchnad
- cynllun ardal ar y cyd 5 mlynedd – yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd drwy'r asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd y farchnad
- cynllun cyflawni blynyddol – sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun ardal
- adroddiad blynyddol y Bwrdd
- strategaethau comisiynu rhanbarthol ar y cyd – i gefnogi gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau integredig ar gyfer y boblogaeth allweddol
- cynlluniau cyflawni clwstwr cyfan – i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol.




**Ffigur 5 Trefniadau cynllunio integredig ar gyfer iechyd, gofal a chymorth**

186. **Dylid** defnyddio dogfennau cynllunio rhanbarthol hefyd i lywio unrhyw gynlluniau penodol i'r sector sydd eu hangen – er enghraifft, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd a dogfennau cynllunio awdurdodau lleol.

187. **Dylai'r** Byrddau gael mynediad at Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, cynlluniau awdurdodau lleol ac adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu hunain bod blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu hadlewyrchu mewn trefniadau asiantaeth sengl.

188. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth baratoi cynllun cyflawni blynyddol i helpu i weithredu'r cynllun ardal ar y cyd pum mlynedd, o dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017. **Dylai'r** cyrff partneriaeth weithio drwy'r Bwrdd i baratoi'r cynllun hwn. **Dylai'r** cynllun ardal ar y cyd a'r cynllun cyflawni lywio a chael eu llywio gan gynllun clwstwr cyfan, strategaethau comisiynu rhanbarthol,

blaenoriaethau awdurdodau lleol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig fel bod pob un ohonynt yn gysylltiedig.

189. Hefyd, byddai'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth adolygu cynnydd tuag at roi'r cynllun ardal ar y cyd ar waith yn flynyddol yn unol â'r cynllun cyflawni blynyddol.

## Perthynas â chynllunio clwstwr a gofal sylfaenol

190. Er mwyn hwyluso synergedd system gyfan, **dylai'r** Byrddau hysbysu a chael eu llywio gan anghenion cymunedol poblogaeth mwy lleol a threfniadau darparu gwasanaethau. Mae grwpiau cynllunio clwstwr cyfan a grwpiau clwstwr, a sefydlwyd o dan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, yn ysgogi cynllunio integredig a darparu gwasanaethau ar lefel gymunedol. Dylent ddarparu deallusrwydd, adnoddau ac atebion lleol i gefnogi cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau rhanbarthol yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd.

191. Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (**12**) yn hyrwyddo gwaith di-dor mewn byrddau iechyd a chyda phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys:

- newid y pwyslais i 'fodel cymdeithasol o ofal'
- sicrhau mynediad amserol at wasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru
- gweithio'n agos â phartneriaid i gryfhau gwasanaethau a sicrhau gweithio di-dor ledled y system gyfan
- gweithio ar sail 'unwaith i Gymru', gan gynnwys
    - hyrwyddo ac ehangu mentrau lleol ledled Cymru
    - nodi atebion a galluogi swyddogaethau ar lefel genedlaethol.

192. Mae'r trefniadau clwstwr sydd wedi'u sefydlu yn cynnwys:

- **mentrau cydweithredu proffesiynol**

  Dyma ble mae amrywiaeth o weithwyr gofal a chymorth proffesiynol yn dod at ei gilydd i ystyried asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth ac ansawdd y gwasanaethau sydd eu hangen, ac yna yn dylunio atebion lleol yn seiliedig ar eu gwybodaeth fanwl a'u harbenigedd.
- **gweithio mewn clwstwr**

  Dyma ble mae aelodau o fentrau cydweithredol proffesiynol yn dod at ei gilydd drwy drefniadau clwstwr i asesu anghenion iechyd a llesiant ehangach eu poblogaeth ac ymateb i asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth er mwyn cynhyrchu cynllun clwstwr tair blynedd â blaenoriaeth.
- **grwpiau cynllunio clwstwr cyfan**

  Dyma ble mae cynrychiolwyr o glystyrau yn dod at ei gilydd ar lefel poblogaeth sirol i gydweithio â chynrychiolwyr o fyrddau iechyd a phenderfynwyr awdurdodau lleol, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, cynllunwyr a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau lle nad yw Mentrau Cydweithredu Proffesiynol na threfniadau clwstwr yn briodol – er enghraifft, gwasanaethau na ddylid ond eu cynllunio ar lefel lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.


193. **Dylai'r** Byrddau weithio'n agos ac mewn ffordd gydlynol gyda chlystyrau a'r grwpiau cynllunio clwstwr cyfan. Heb gysoni wedi'i gynllunio a'i ddisgrifio'n ofalus rhwng mecanweithiau cynllunio a darparu clystyrau, clystyrau cyfan a

(**12**) Dolen at y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ar wefan GIG Cymru

rhanbarthol mae yna berygl posibl o ddyblygu ymdrech a hyd yn oed o densiwn rhwng trefniadau partneriaeth.

194. Mae gan grwpiau cynllunio clwstwr ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni blaenoriaethau'r Byrddau sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau ardal ar y cyd. Mae grwpiau cynllunio clwstwr cyfan yn gweithredu ar draws ardal awdurdod lleol, ac yn cydlynu'r adnoddau sydd ar gael, gan ddarparu cyfeiriad drwy eu cynlluniau strategol tair blynedd, a'u cynlluniau gweithredol blwyddyn eu hunain.

195. Dylid ystyried gwaith cynllunio ar lefel ranbarthol, clwstwr cyfan a chlwstwr fel cyfres gyfunol o asesiadau o anghenion cydgysylltiedig a chynlluniau sy'n gallu dyrannu gwasanaethau ac adnoddau i'r mannau lle mae darpariaeth integredig well yn gallu cael yr effaith fwyaf. Mae Ffigur 6 yn enghraifft o sut y dylai'r cynlluniau hyn gael eu halinio.




**Ffigur 6 Alinio cynlluniau rhanbarthol, clwstwr cyfan a lleol**

# 7. Atebolrwydd ac adrodd

## Dirprwyo arfer swyddogaethau

196. **Caiff** awdurdod lleol gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau penodedig ar ran unrhyw un o'r cyrff partneriaeth eraill sy'n cymryd rhan yn yr un trefniant partneriaeth. **Caiff** bwrdd iechyd gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau awdurdod lleol penodedig sy'n cael eu disgrifio yn Nhabl 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ar ran unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn yr un trefniant partneriaeth.

197. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn perthyn yn gyfartal i awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Rhaid i'r sefydliadau statudol hyn sicrhau eu hunain eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol drwy'r trefniadau partneriaeth.

## Mesur effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth

198. Mae sawl ffordd o fesur effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth:

- adroddiadau blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- cynlluniau cyflawni blynyddol sy'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru
- cyfarfodydd rhwng Gweinidog Cymru a Chadeiryddion ac arweinwyr rhanbarthol, i drafod cynnydd ac adlewyrchu blaenoriaethau allweddol
- cyfarfodydd rhwng Gweinidogion Cymru a'r unigolion cyfrifol penodol yn y cyrff partneriaeth i gael sicrwydd mewn perthynas â chyflawni dyletswydd eu sefydliad i gydweithio
- hunanasesiadau'r Byrddau o'u heffeithiolrwydd a'r graddau y maent wedi cyflawni eu dyletswyddau – i'w cynnal bob dwy flynedd a'u hadolygu bob blwyddyn
- y Byrddau'n mynd ati i ystyried canfyddiadau'r hunanasesiadau, a nodi meysydd allweddol i'w gwella
- triongli canfyddiadau'r hunanasesiad gyda thystiolaeth a gasglwyd o adolygiadau o'r cyrff partneriaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- craffu ar y graddau y mae'r cyrff partneriaeth yn cyflawni eu dyletswyddau i gydweithredu gan gyrff adolygu allanol, megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru.

199. Mae angen i'r Byrddau weld y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, cynlluniau awdurdodau lleol ac adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol a gyhoeddir, a fydd yn eu helpu i gyflawni eu rôl yn well wrth sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol.

200. Fel rhan o'r prosesau sicrwydd a monitro, **dylai'r** Byrddau sicrhau bod asesiadau o anghenion y boblogaeth, adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal ar y cyd yn cofnodi lleisiau, profiadau a hanes pobl mewn ffordd ystyrlon, gan ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Er bod yr egwyddorion hyn wedi'u cynnwys fel rhan o ddarpariaethau presennol Deddf 2014, **dylid** rhoi rhagor o bwyslais ar berchnogaeth a sicrhau bod yr

egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr holl drefniadau partneriaeth.

## Personau cyfrifol

201. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth enwi 'unigolyn cyfrifol' i arwain a sicrhau cydweithrediad yn y trefniadau partneriaeth ar ran eu corff partneriaeth.

202. O ran awdurdodau lleol, **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol fod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr yn aelodau o'u Byrddau perthnasol. O safbwynt y byrddau iechyd, **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol fod yn aelod gweithredol o'r bwrdd iechyd sy'n cael ei benodi i'r Bwrdd. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hwyluso cyfraniad ei gorff at gyflawni amcanion y Bwrdd, **dylid** disgwyl i'r unigolyn cyfrifol adrodd yn ôl i fwrdd neu gabinet ei sefydliad ei hun am waith y Bwrdd. Bydd disgwyl iddo hefyd gwrdd â Gweinidogion Cymru i roi diweddariadau a sicrwydd cynnydd mewn perthynas â chyflawni dyletswydd eu sefydliad priodol i gydweithredu.

203. **Dylid** ysgrifennu'r gofynion hyn yn nisgrifiad rôl yr aelod. Yn ogystal, **dylai'r** corff partneriaeth perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru am enw'r unigolyn cyfrifol, a **dylai** gael ei nodi hefyd yn adroddiadau blynyddol a chynlluniau blynyddol y Byrddau.

## Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol

204. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau baratoi adroddiad blynyddol ar y graddau y mae amcanion y Bwrdd wedi'u cyflawni. **Rhaid** i'r Byrddau gyflwyno eu hadroddiadau i Weinidogion Cymru erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

205. Mae Rheoliad 12 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn nodi bod **rhaid** i'r Byrddau gynnwys y canlynol yn eu hadroddiadau blynyddol:

- disgrifiad o ddiben, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd
- gwybodaeth am sut mae'r trefniadau partneriaeth wedi ymateb i'r asesiad poblogaeth a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, a gweithrediad y cynllun ardal ar y cyd, gan gynnwys manylion am sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio
- gwybodaeth am sut mae'r Bwrdd wedi helpu i integreiddio trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- gwybodaeth am sut mae'r Bwrdd wedi helpu i wella darpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl
- adroddiad ar sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr, plant a phobl ifanc) yn ei waith
- adroddiad ar sut mae'r Bwrdd wedi hyrwyddo cyfranogiad dinasyddion yn ei waith, ac asesiad o'r effaith y mae hyn wedi'i gael ar wella canlyniadau llesiant i bobl yn yr ardal a gwmpesir gan y Bwrdd
- gwybodaeth am unrhyw weithgaredd cydgomisiynu a'r defnydd o gronfeydd cyfun yn y trefniadau partneriaeth
- gwybodaeth am sut mae'r cyrff partneriaeth wedi ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu

harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau trydydd sector yn y trefniadau partneriaeth

- gwybodaeth am flaenoriaethau'r Bwrdd am y deuddeg mis nesaf
- crynodeb o adroddiad hunanasesu'r Bwrdd neu o adolygiad o'r hunanasesiad
- canlyniadau'r adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r cynllun ardal ar y cyd.

206. **Dylai'r** adroddiadau blynyddol hefyd gynnwys gwybodaeth am sut mae'r Byrddau yn cefnogi awdurdodau lleol gyda'u dyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2014 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, a sut maent yn ymgysylltu â'r sector hwn.

207. Wrth baratoi eu hadroddiadau blynyddol, **dylai'r** Byrddau ystyried unrhyw ganllawiau atodol sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd.

208. **Dylai'r** Byrddau sicrhau bod eu hadroddiadau'n ategu ond nad ydynt yn dyblygu adroddiadau blynyddol y cyrff partneriaeth neu adroddiadau llesiant blynyddol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

209. **Dylai'r** Byrddau lunio eu hadroddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a gwneud trefniadau i'w cyfieithu i ieithoedd eraill neu mewn fformatau hygyrch megis braille neu fformat hawdd ei ddarllen lle bo angen.

210. **Rhaid** i'r Byrddau gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol ar eu gwefannau.

## Mesur effaith

211. Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn darparu dangosyddion cenedlaethol a fydd yn helpu i ddangos sut y mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu helpu i gefnogi'r canlyniad cyffredinol bod 'pawb yng Nghymru yn mwynhau iechyd a llesiant da' (**13**)

212. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r broses o ddatblygu fframwaith safonau integreiddio yn helpu i fesur data rheoli perfformiad a fydd yn ei dro yn pennu effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth.

213. **Dylai'r** cyrff partneriaeth sicrhau bod eu cynlluniau ardal ar y cyd a'u cynlluniau cyflawni yn cyd-fynd â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'u bod yn gallu dangos effeithiau eu gwaith gan ddefnyddio ystod o fesurau ansoddol a meintiol.

(**13**) Gellir dod o hyd i adroddiadau blynyddol sy'n mesur cynnydd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yma: https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-y-gwasanaethau-cymdeithasol-adroddiadau-blynyddol

# 8. Rhannu gwybodaeth

214. Mae Rheoliad 13 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gorff partneriaeth rannu gwybodaeth ag unrhyw un o'r cyrff partneriaeth eraill a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r trefniant partneriaeth. Hefyd, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau rannu gwybodaeth gyda'r cyrff partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys os yw hyn yn anghydnaws ag unrhyw un o ddyletswyddau eraill y corff partneriaeth, gan gynnwys ei ddyletswyddau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

215. Mae sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddu a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru wedi croesawu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (**14**) fel adnodd i'w helpu i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Mae pob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, ac felly **dylai** unrhyw wybodaeth sy'n gallu adnabod rhywun gael ei rhannu'n unol â'r egwyddorion hyn.

216. Bydd angen i'r cyrff partneriaeth sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol er mwyn gwella'r modd y mae gwasanaethau, gofal, a chymorth yn cael eu darparu. **Dylent** ddefnyddio technoleg a systemau cyffredin i ategu hyn. Bydd disgwyl i'r Bwrdd ddarparu arweinyddiaeth strategol yn y maes hwn.

(**14**) https://www.waspi.llyw.cymru/

# 9. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

## Dirprwyo

217. Mae'r Bennod hon yn ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cyrff partneriaeth mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth.

218. O'r dechrau, mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi canolbwyntio ar weithio gyda rhieni a'r teulu estynedig yn gynnar yn y broses cyn bod plant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd fel bod rhieni'n gallu gwella eu sgiliau rhianta.

219. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth rhwng y cyrff partneriaeth sicrhau bod Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu darparu.

220. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd er mwyn galluogi rhieni i gyflawni'r newidiadau ymddygiad gofynnol a fydd yn gwella eu galluedd a'u gallu fel rhieni. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn seiliedig ar yr egwyddor fod y teulu estynedig yn ymgysylltu â'r broses.

221. Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn canolbwyntio ar blant sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys plant sydd angen eu hamddiffyn. Maent yn pontio gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ar draws y cyrff partneriaeth, gyda'r cyrff hynny'n gyfrifol am wneud darpariaeth ddigonol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniadau cydgysylltiedig, i gynorthwyo plant ac oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio atynt. Pan gafodd ei gyflwyno yn 2010, amlinellwyd set o egwyddorion sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd wneud y canlynol:

    - cryfhau'r trefniadau o ran diogelu a lles plant drwy gamau gweithredu adferol er mwyn cefnogi rhieni yn well
    - gwella ansawdd gwasanaethau i rieni a phlant sy'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol
    - canolbwyntio ar y teulu, gan sicrhau bod llais y teulu yn cael ei glywed a bod ymyriadau'n gydnaws â chanlyniadau dymunol y teulu
    - hwyluso'r broses o newid gwasanaethau
    - bod yn adnodd ar gyfer gwasanaethau cyfredol
    - meithrin cysylltiadau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth
    - darparu ymyriadau cyfannol a dwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth
    - darparu adnodd hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ymgysylltu â theuluoedd cymhleth.

222. **Dylai** gwerthoedd y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd fod yn seiliedig ar ymgysylltu a chydweithio, gan ddatblygu cryfderau'r teulu ac

unigolion. **Rhaid** gwrando ar safbwyntiau plant a rhieni a chanolbwyntio ymyriadau ar y canlyniadau y maent am eu sicrhau.

## Timau integredig cymorth i deuluoedd

223. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth ar gyfer pob trefniant partneriaeth sefydlu tîm at ddibenion cyflawni swyddogaethau cymorth i deuluoedd. Cyfeirir at dîm sy'n cael ei sefydlu o dan y rheoliad hwn fel tîm integredig cymorth i deuluoedd. Mae swyddogaethau'r tîm integredig cymorth i deuluoedd yn cael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd y Bwrdd.

224. **Rhaid** i dîm integredig cymorth i deuluoedd gynnwys staff sydd â'r sgiliau a'r profiad addas, gan gynnwys o leiaf un gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol, un gweithiwr gwaith cymdeithasol proffesiynol cymwysedig ac un gweithiwr iechyd cofrestredig, gan roi sylw i'r categorïau o achosion/teuluoedd y gellir eu hatgyfeirio at y tîm, a'r angen am gymorth gweinyddol ar staff proffesiynol (gweler rheoliad 16(4)(a) a (b) o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth).

225. Mae'r holl gyrff partneriaeth yn ardal pob Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am sefydlu'r tîm integredig cymorth i deuluoedd a'i gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, mae pob corff partneriaeth yn gyfrifol am ei swyddogaethau statudol perthnasol.

226. **Rhaid** sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd ar gyfer yr ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan bob Bwrdd. **Rhaid** i'r timau fod yn amlddisgyblaethol ac yn amlasiantaethol.

## Atgyfeirio at Dimau Integredig Cymorth i Deuluoedd

227. O dan Reoliad 18(1) o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, **caiff** corff partneriaeth atgyfeirio teulu at dîm integredig cymorth i deuluoedd os yw'n credu neu'n amau'r canlynol yn rhesymol:

a) bod rhiant plentyn yn y teulu hwnnw (neu ddarpar riant)
   - yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau
   - yn dioddef trais domestig neu gam-drin domestig
   - a chanddo hanes ymddygiad treisiol neu ymddygiad o gam-drin, neu
   - yn dioddef anhwylder meddyliol, a

b) o ganlyniad i un neu ragor o'r amgylchiadau hyn, bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn blentyn y mae angen gofal a chymorth arno a naill ai:
   - na fydd y plentyn yn gallu aros gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd
   - pan fo'r plentyn yn derbyn gofal, na fydd y plentyn yn gallu dychwelyd i fyw gyda'r teulu os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd, neu
   - bod y plentyn, neu y bydd y plentyn, yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall os na ddarperir gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

228. Mae'n ofynnol i'r cyrff partneriaeth adnabod teuluoedd lle mae modd dangos y bydd darparu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd o fudd uniongyrchol i iechyd a lles plentyn. Dylid canolbwyntio ar y canlynol yn y lle cyntaf:

   - plentyn sydd angen ei amddiffyn ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, lle mae gofal neu ddatblygiad y plentyn wedi'i esgeuluso

- mae'r teulu mewn sefyllfa o argyfwng ac mae'r plant yn debygol o dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol
- mae plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac ni fyddant yn gallu dychwelyd adref heb ymyrraeth.

229. O dan Reoliad 18(2) o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, rhaid i atgyfeiriad at Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd gydymffurfio â gweithdrefn atgyfeirio sydd wedi'i chytuno gan y Bwrdd. Felly, **rhaid** i bob Bwrdd gytuno ar weithdrefn atgyfeirio i'w defnyddio gan gorff partneriaeth wrth atgyfeirio teulu at Wasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.

230. **Rhaid** i awdurdodau lleol fod â pholisi ysgrifenedig sy'n amlinellu sut y byddant yn cynnal adolygiadau o deuluoedd, a systemau ar gyfer cofnodi'r adolygiad a'i ganlyniad. **Rhaid** i'r rhain gydymffurfio â gofynion Rhannau 3 a 4 o Ddeddf 2014 yn ymwneud ag asesu a diwallu anghenion. **Rhaid** rhoi copi o unrhyw gynlluniau sy'n deillio o'r adolygiadau i weithiwr achos y plentyn a chydgysylltydd gofal y gwasanaeth i oedolion. **Rhaid** rhoi copi i'r teulu hefyd.

231. Bydd angen i'r cyrff partneriaeth benderfynu ar y strwythurau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau bod Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael ei ddarparu.

232. Wrth benderfynu ar y strwythur gweithredol/darpariaeth ar gyfer y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, bydd angen i'r Bwrdd benderfynu ar y broses atgyfeirio hefyd.

233. Bydd angen i'r Byrddau sicrhau'r canlynol:

- bod y cyrff partneriaeth wedi cyflawni eu rhwymedigaeth o dan reoliad 18(1) o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth i sefydlu timau Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd)
- bod y cyrff partneriaeth sy'n cyfrannu at y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cydweithredu â'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol
- bod gan y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau (bydd hyn yn cynnwys yr adnoddau penodol sydd ar gael i'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd, yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau traws-sector lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys y gofynion bod person annibynnol yn cydgysylltu'r adolygiad o'r cynlluniau perthnasol
- bod aelodau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn derbyn hyfforddiant priodol, a sicrhau bod timau neu unigolion cysylltiedig eraill yn derbyn hyfforddiant, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion da
- bod anghydfodau a chwynion yn derbyn sylw ac yn cael eu datrys yn briodol
- bod adroddiad yn cael ei lunio ar y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd fel rhan o adroddiad blynyddol y Bwrdd (bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad hwn yn ffurfiol cyn ei fod yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, a **rhaid** cyhoeddi'r adroddiad hefyd).

234. Nid oes unrhyw fwriad i bennu nifer aelodau'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol. Bydd angen i'r gwariant fod yn briodol i ddarparu ar gyfer digon o swyddi i sicrhau bod y Tîm yn gallu diwallu anghenion teuluoedd yn yr ardal, gan gynnwys cymorth gweinyddol. **Rhaid** i'r cyrff partneriaeth sicrhau bod y gronfa yn cael ei defnyddio i sicrhau tegwch wrth ddarparu gwasanaethau ledled yr ardal, mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd.

## Atodiad: Siarter i gefnogi aelodau o fyrddau partneriaeth rhanbarthol

1) Ym mis Hydref 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru Siarter ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n amlinellu cyfres o ymrwymiadau i sicrhau cyfranogiad ystyrlon gan aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal ar eu byrddau. Cafodd y Siarter hon ei chydgynhyrchu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, fel rhan o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru. Mae ymrwymiadau'r Siarter yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu a llais fel y'u nodir yn Neddf 2014.

2) **Dylai'r** Byrddau fabwysiadu ac ymgorffori ymrwymiadau'r Siarter yn eu gwaith. **Dylai'r** Bwrdd cyfan ysgwyddo cyfrifoldeb a cheisio cyflawni'r ymrwymiadau. Mae angen i Gadeiryddion yn benodol ddeall eu cyfrifoldeb i sicrhau bod y Siarter yn cael ei harddel a'i gweithredu ar draws y bartneriaeth.

### Ymrwymiadau'r Siarter

3) **Dylai** Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud y canlynol:

### Cydgynhyrchu

- sicrhau bod dulliau cydgynhyrchu ystyrlon yn cael eu deall a'u gweithredu ar bob lefel o'r strwythur partneriaeth ranbarthol, a bod unrhyw welliannau y mae eu hangen yn cael eu gweithredu
- darparu hyfforddiant ar y cyd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn deall ac yn hyrwyddo dulliau o weithio sy'n seiliedig ar gydgynhyrchu
- gweithio'n ddiflino i wreiddio arferion cydgynhyrchu yng ngweithgarwch y Bwrdd a thrwy bob rhan o'r bartneriaeth ehangach ar bob lefel

### Recriwtio

- datblygu disgrifiadau eglur o rolau holl aelodau'r Bwrdd yn unol â'r templedi cenedlaethol, gan barhau i'w hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio fel y bo angen
- gweithredu prosesau hysbysebu a recriwtio tryloyw, sydd ar gael yn rhwydd i bobl, wrth fynd ati i lenwi rolau aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, sefydliadau'r trydydd sector, a darparwyr gofal

### Cyfarfodydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

- darparu cyfleoedd i'r aelodau hynny sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda a phwyntiau i'w trafod
- sicrhau bod papurau cyfarfodydd ar gael yn rhwydd, ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir ac mewn modd sy'n hwyluso trafodaeth, gan ei gwneud yn hawdd i bob aelod gymryd rhan
- dosbarthu papurau cyfarfodydd mewn da bryd er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal gael cyfarfodydd ymlaen llaw i egluro cyd-destun a rhoi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau
- sicrhau bod Cadeiryddion yn gosod cywair a chyflymder priodol mewn cyfarfodydd bwrdd, er mwyn i bob aelod deimlo ei fod wedi ei gynnwys a bod ei gyfraniad yn cael ei werthfawrogi, a'i fod yn cael ei alluogi i gymryd rhan lawn a chyfartal mewn trafodaethau
- sicrhau bod yr aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal mewn trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.

## Cymorth

- gweithredu fframwaith cymorth i'r aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal, gan gynnwys cynefino, mentora aelodau newydd, cyfathrebu a chadw mewn cysylltiad rhwng cyfarfodydd, a gofal bugeiliol
- creu cyfleoedd i'r Cadeirydd allu dod i adnabod yr aelodau hyn, er mwyn dod i wybod am eu sgiliau a'u profiad, a sut y gall gwaith y Bwrdd elwa ar y sgiliau a'r profiadau hynny yn y modd mwyaf effeithiol
- trefnu i bob un o'r aelodau hyn gyfarfod â Chadeirydd y bwrdd fel unigolyn o leiaf ddwywaith y flwyddyn, er mwyn adolygu cynnydd
- sicrhau bod yr aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal yn gallu codi cwestiynau neu bryderon ar unrhyw adeg, a bod y cwestiynau a'r pryderon hynny'n cael y sylw priodol, a bod adborth yn cael ei roi mewn modd amserol
- sicrhau bod yr aelodau hyn yn gallu cael mynediad at weithiwr cymorth neu gymorth priodol arall
- llunio prosesau teg a chadarn ar gyfer gwneud cwynion a datrys anghydfodau, gan sicrhau bod pob aelod yn eu deall ac yn gwybod sut i'w defnyddio
- gwella lefel yr ymgysylltu sy'n digwydd rhwng staff ac aelodau'r Bwrdd o fewn y strwythur partneriaeth ranbarthol

## Adrodd ac adolygu

- sicrhau bod cyfle i'r aelodau sy'n darparu llais ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr gofal adrodd ar eu profiadau a'u cyfraniad yn adroddiad blynyddol y Bwrdd
- adolygu sut y mae'r Siarter hon yn cael ei gweithredu bob blwyddyn, a gwneud unrhyw welliannau y mae eu hangen.